

CYNGOR SIR Y FFLINT

# Adroddiad Blynyddol

## *GWASANAETHAU CYMDEITHASOL*

## 2019/2020

a Blaenoriaethau 2020/21

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

# Cynnwys...


**Adran 1** — **Rhagarweiniad**

**Adran 2** — **Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr**

**Adran 3** — **Sut mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?**

**Adran 4** — **Hybu a Gwella Lles yr Unigolion sy’n cael Cymorth gennym**

- **SAG1:** *Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.*
- **SAG2:** *Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a’u lles emosiynol.*
- **SAG3:** *Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.*
- **SAG4:** *Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.*
- **SAG5:** *Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd iach a diogel yn y cartref, gyda’r teulu ac yn bersonol.*
- **SAG6:** *Gweithio gyda phobl a’u cefnogi i sicrhau gwell lles economaidd, gwell bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy’n diwallu eu hanghenion.*

**Adran 5** — **Sut rydym yn cyflawni’r hyn rydym yn ei wneud**

- a) *Ein gweithlu a sut rydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol*
- b) *Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol*
- c) *Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd*

**Adran 6** — **Cael gafael ar fwy o wybodaeth a dogfennau pwysig**

**Rhestr Termau**

**Atodiad 1** — **Data cyd-destunol a mesuryddion perfformiad cenedlaethol**


Os ydych chi’n darllen yr adroddiad hwn ar-lein, mae dolenni yn yr adran olaf sy’n rhoi mwy o wybodaeth i chi am ein gwasanaethau, ein mentrau a dogfennau allweddol. Mae yna hefyd restr termau yn y cefn, a allai helpu i egluro geiriau a thermau anghyfarwydd.

Mae’r adroddiad yn nodi ein taith tuag at wella yn 2019/20 ac yn dangos sut rydym wedi hybu lles drwy ein gwasanaethau.

Os ydych chi’n derbyn gwasanaeth gennym, cofiwch ddweud wrthym a ydych chi’n credu bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchiad teg o’ch profiadau chi dros y 12 mis diwethaf. Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych chi ac mae eich barn yn hanfodol er mwyn i ni allu parhau i wella gwasanaethau er mwyn cyflawni eich canlyniadau chi.

**Gallwch gysylltu â ni fel a ganlyn:**


**Neil Ayling (Prif Swyddog)**
**Cyngor Sir y Fflint, Swyddfeydd Prif Swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol, Cam 1 Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NN**
**E-bost: neil.j.ayling@flintshire.gov.uk**



This report has been designed and printed by...
double click DESIGN & PRINT
Supporting Mental Health in the community

# Adran 1: Rhagarweiniad

**Dyma ein nawfed Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir y Fflint a'n pedwerydd i gael ei baratoi o dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, sydd ill dwy yn ei gwneud yn ofynnol yn statudol i'r Cyngor adrodd ar ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn flynyddol. Diben yr adroddiad hwn yw myfyrio ar ein perfformiad yn ystod 2019/20 ac amlygu ein blaenoriaethau a'n bwriadau ar gyfer 2020/21.**

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn canolbwyntio ar les, ac mae ein hadroddiad yn crynhoi'r prif bethau rydym yn eu gwneud yn Sir y Fflint i gefnogi ein trigolion mwyaf bregus. Mae'n disgrifio ein heriau, yn rhoi darlun i'n budd-ddeiliaid o'n perfformiad a sut rydym wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn nodi ein blaenoriaethau at y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r budd-ddeiliaid yn cynnwys pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein staff, aelodau etholedig, y cyhoedd, ein partneriaid, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru. Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan annatod o'r hyn rydym yn ei wneud, ac mae'n dylanwadu ar ddatblygiad ein gwasanaethau a'n cynlluniau at y dyfodol.

Yn yr adroddiad, rydym yn gwerthuso ein perfformiad ochr yn ochr â blaenoriaethau gwella'r llynedd ac yn nodi ein blaenoriaethau at y flwyddyn nesaf.

**Mae'r rhain yn canolbwyntio ar les ac maent yn gysylltiedig â'r chwe Safon Ansawdd Genedlaethol, sef:**

## Safon Ansawdd Genedlaethol 1

Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.

## Safon Ansawdd Genedlaethol 2

Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol.

## Safon Ansawdd Genedlaethol 3

Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.

## Safon Ansawdd Genedlaethol 4

Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

## Safon Ansawdd Genedlaethol 5

Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd iach a diogel yn y cartref, gyda'r teulu ac yn bersonol.

## Safon Ansawdd Genedlaethol 6

Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i sicrhau gwell lles economaidd, gwell bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Adran 2:

# Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr

**Mae eleni wedi dod â heriau digynsail yn ei sgil. O'r tywydd garw ar ddechrau 2020 i'r sefyllfa bresennol gyda Covid-19, mae ein gweithlu'n parhau i gyflawni eu dyletswyddau gydag ymrwymiad, trugaredd a gwytnwch, gan ddangos mai dim ond cryfhau y mae gwerthoedd Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint mewn cyfnod o angen ychwanegol.**

Rydym ni yn y maes Gofal Cymdeithasol, mewn sefydliadau statudol ac annibynnol, yn gweld y gwaethaf o'r ymateb i'r pandemig byd-eang, ac mae gan bob aelod staff ran arbennig o bwysig i'w chwarae i sicrhau ein bod yn parhau i ofalu am y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae holl wasanaethau hanfodol y Cyngor yn rhedeg fel arfer ar hyn o bryd, ond mae'r sefyllfa yn parhau i ddatblygu'n gyflym. Byddwn yn gwneud penderfyniadau am flaenoriaethu ein hadnoddau ar gyfer y gwasanaethau mwyaf hanfodol yn ôl yr angen.

Yn sgil cynllunio at argyfwng yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, bu i ni ddatblygu ymateb cydgysylltiedig ar draws y gwasanaethau mewnol a'r rhai a gomisiynir, er mwyn cadw'r unigolion hynny rydym yn darparu gofal a chymorth iddynt mor ddiogel ag y bo modd yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Mae staff ar draws yr holl wasanaethau wedi cael eu hadleoli i feysydd lle'r oedd eu hangen, ac rydym yn parhau i weithio yn ôl y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r DU.

Mae ymateb aruthrol y gymuned hefyd yn codi ein calonnau, gydag unigolion, grwpiau a busnesau'n cydweithio i helpu ffrindiau, cymdogion a dieithriaid. Gobeithiwn y bydd y rhwydweithiau a grëwyd yn parhau wedi i'r pandemig fynd heibio, gan ddal ati i helpu'r unigolion hynny sydd mewn angen. Ochr yn ochr ag ymateb i'r sefyllfaoedd annisgwyl hyn, rydym yn parhau i weithio ar osod cyllideb sy'n cydbwyso ein hadnoddau â'n hanghenion gwario. Er bod y Cyngor yn gweithio drwy'r flwyddyn i ddod o hyd i ffyrdd o fantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod, ar ddiwedd yr hydref a thros y gaeaf y mae'r cynghorwyr yn dechrau o ddifrif ar gylch o drafodaethau am y ffordd orau o fantoli a gosod y gyllideb yn gyfreithlon ar gyfer y mis Ebrill dilynol.

Mae popeth y mae'r Cyngor yn ei wneud yn bwysig i rywun, a hyd yn oed yn ystod degawd o heriau ariannol, mae Cyngor Sir y Fflint wedi parhau i berfformio'n dda. Drwy fod yn uchelgeisiol, yn arloesol a chynllunio ar gyfer y dyfodol, mae wedi parhau i warchod a buddsoddi mewn gwasanaethau lleol.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i warchod cyllidebau o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel sy'n rhoi pobl wrth wraidd eu gofal a'u cymorth.

Mae gennym reswm i ddathlu. Ochr yn ochr â'r gweithlu a'n partneriaid, rydym wedi gallu cyflawni nifer o brosiectau llwyddiannus, a byddwn yn eu disgrifio mewn mwy o fanylder drwy gydol yr adroddiad hwn.

Mae rhai o'r uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Agor Hwb Cyfle
- Datblygu ein cyfleusterau Gofal Ychwanegol
- Bod yn Gyngor sy'n 'Gweithio Tuag at Ddeall Dementia' - y cyntaf yng ngogledd Cymru.
- Ein hadborth cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn dilyn eu harolwg manwl.
- Gweithredu Prosiect Mentrau Meicro-ofal
- Llwyddiannau parhaol gyda'r rhaglen Cynnydd i Ddarparwyr

Heb os, bydd y flwyddyn o'n blaenau yn dod â heriau pellach yn ei sgil wrth i ni sylweddoli pa effaith y bydd Covid-19 wedi ei gael ar ein poblogaeth, ein busnesau, ein gwasanaethau a'n cymunedau. Mae mesurau llym newydd Llywodraeth Cymru a'r DU ar gyfer teithio hanfodol, cadw pellter cymdeithasol ac ymddygiad cyhoeddus wedi arwain at newidiadau mawr i'r hyn roeddem yn ei ystyried yn normal. Mae'n debyg fod nifer o bobl wedi ailasesu gwerth y rhai sy'n gweithio yn y maes gofal cymdeithasol. Roeddent yn arfer eu hystyried yn rolau sgiliau isel, ond maent bellach wedi ennyn dealltwriaeth newydd o'r gwaith anhygoel y maent yn ei wneud bob diwrnod. Dylid parhau i ddathlu'r gweithlu hwn fel arwyr, ochr yn ochr â'r gweithlu iechyd, y rhai sydd yn gweithio yn y gadwyn gyflenwi cynhyrchu bwyd, gweithwyr post a danfon, gwirfoddolwyr a llawer iawn o bobl eraill sy'n gosod sylfaeni ein cymunedau.

**Rydym yn arbennig o falch o'r unigolion hynny sy'n cydweithio â ni i sicrhau y caiff y plant a'r oedolion mwyaf bregus yn ein sir eu helpu i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt hwy. Heb yr ymagwedd ddigynnwrf a phwyllog hon, ni fyddem yn gallu parhau i ofalu am yr unigolion hynny yn ein cymuned sydd â'r angen mwyaf.**

Edrychwn ymlaen at yr amser lle gallwn ni ddychwelyd i'n 'normal' newydd, ond rhaid i ni ddysgu o'r cyfnod hwn a cheisio gweithredu, ar raddfa fwy, rhai o'r partneriaethau a'r ffyrdd newydd o wneud pethau rydym wedi eu gweld hyd yma. Yn y pen draw, rhaid i ni barhau i weithio yn ôl ein gwerthoedd o roi pobl yn gyntaf, cadernid, hyblygrwydd, dyfeisgarwch a thosturi, sydd wrth wraidd popeth a wnawn.



**Neil Ayling**
*Prif Swyddog*



**Y Cynghorydd  Christine Jones**
*Cabinet Member for Social Services*

Adran 3:

# Sut mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?

## Yn ganolog i'n gwaith yn y Gwasanaethau Cymdeithasol y mae pobl Sir y Fflint.

Fe welwch chi gyfeiriadau drwy'r ddogfen hon at **'Beth sy'n Bwysig'**. Drwy gynnal sgwrs Beth sy'n Bwysig gydag unigolion, gallwn ganfod beth fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd unigolyn a diffinio'r canlyniadau yr hoffent eu cyflawni. Yna, gallwn gydweithio â'r unigolyn a'r bobl o'u cwmpas i ganfod y bobl a'r asedau eraill all eu helpu i gyrraedd eu nod, gan roi pwyslais ar roi grym i'r unigolyn gymryd rheolaeth dros eu hamgylchiadau eu hunain. Dim ond wedyn y bydd gwasanaethau ffurfiol yn cael eu sefydlu i ddiwallu'r anghenion a'r 'hyn sy'n bwysig' y gall yr unigolyn eu cyflawni heb gymorth.


Os byddwch chi'n dod i gysylltiad â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gallwch ddisgwyl iddynt ofyn am rywfaint o'r wybodaeth hon.

Mae'r gofal a'r cymorth y gallai rhywun fod ei angen i gyflawni eu canlyniadau yn amrywio'n fawr rhwng unigolion, ac mae'n bwysig deall nad oes yna un ateb sy'n addas i bawb. Gall y cymorth y mae ar rhywun ei angen gynyddu neu leihau dros amser.

Ynghyd â chynnig cyfleoedd i bobl fod yn rhan o ddatblygu eu gofal a'u cymorth eu hunain, rydym hefyd yn gweithio i sicrhau y gallwn gynnig cyfleoedd i bobl ddylanwadu ar ddyluniad ehangach y gwasanaeth, a datblygu atebion i'r problemau a godwyd. Isod, fe welwch chi rai o'r meysydd lle mae trigolion ac asiantaethau partner wedi ein cefnogi i ddylunio a darparu gwasanaethau.

## Mae sgyrsiau beth sy'n bwysig wedi'u seilio ar y 5 pwynt canlynol:

1. amgylchiadau'r unigolyn
2. eu canlyniadau personol
3. rhwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny
4. y risgiau i'r unigolyn neu i bobl eraill pe na bai'r canlyniadau hynny'n cael eu cyflawni
5. cryfderau a gallu'r unigolyn



**Mae Lleisiau Ifanc yn Siarad Allan yn grŵp o bobl ifanc sy'n derbyn gofal neu'n gadael gofal.**

Bu i'r grŵp hwn ddylunio logo ar gyfer eu henw newydd oedd yn ymgorffori'r arwydd anfeidredd, gan fod hynny'n golygu 'am byth' sy'n cyfleu na fydd yna ddiwedd i'r grŵp. Hyd yn oed pan fydd yr aelodau presennol yn symud ymlaen, bydd aelodau newydd yn ymuno i barhau â'r gwaith.

Dyma rai o'r pethau y mae'r grŵp hwn wedi gweithio arnynt yn y 12 mis diwethaf:

- Cyfweld ymgeiswyr am swydd Rheolwr yn y Gwasanaethau Plant. Gofynnodd y grŵp gwestiynau yr oeddent wedi'u hysgrifennu i'r ymgeiswyr a darparu adborth i'r Uwch Reolwyr.
- Mae aelodau'r grŵp hefyd yn parhau i fynychu cyfarfodydd Fforwm y Gwasanaethau Plant sy'n cynnwys Aelodau Etholedig, Uwch Reolwyr a chynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Plant ac Addysg. Yn y cyfarfodydd hyn, byddant yn rhannu eu barn am amrediad o bynciau sydd yn ddiweddar wedi cynnwys tai, addysg a chyngor iechyd rhywiol i bobl ifanc.
- Mae'r aelodau'n mynychu digwyddiadau rhanbarthol 'Lleisiau o Ofal', sy'n dod â phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal o bob rhan o Gymru ynghyd. Yn y cynadleddau, bydd gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithdai a gweithgareddau. Mae'r grŵp wedi mynychu gweithdai ar Rianta Corfforaethol ac Addysg.
- Mae'r grŵp hefyd wedi mynychu Cynhadledd Cyfranogiad Blynyddol Cymru Ifanc yn Wrecsam. Fe roddodd gyfle iddynt gyfarfod ag aelodau Grwpiau Cyfranogiad a Chynghorau Ieuenctid eraill a dysgu am y gwaith y maent yn ei wneud.
- Mae'r grŵp hefyd wedi cyfrannu eu syniadau i ddatblygu nifer o wahanol brosiectau mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles i bobl ifanc. Gofynnwyd i'r grŵp pa gymorth yr oeddent yn teimlo oedd ar gael i blant a phobl ifanc mewn perthynas â iechyd meddwl a lles, ac a oeddent yn teimlo bod yna unrhyw beth ar goll a allai fod yn dda i blant a phobl ifanc. Yn dilyn hyn, mae'r aelodau wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Theatr Clwyd a maent yn helpu cynllunio prosiectau cymunedol.

Rydym wedi datblygu **tudalennau gwe newydd ar gyfer unigolion sy'n byw gyda Dementia** a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn Sir y Fflint, ar ôl i Jim, un o'r trigolion lleol sy'n byw gyda Dementia, rannu pa mor anodd oedd canfod y wybodaeth gywir i'w helpu yn dilyn ei ddiagnosis. Y gobaith yw y bydd hyn yn dod ag amrediad o wybodaeth ynghyd mewn un lle, gan weithredu fel cyfeiriadur o wasanaethau cymorth.

Bydd y tudalennau gwe yn parhau i gael eu diweddaru wrth i ni ddysgu mwy am gefnogaeth leol. Rydym hefyd wrthi'n mapio'r cymunedau, lleoliadau, busnesau ac ysgolion sy'n Deall Dementia ar ein map rhyngweithiol, y byddwn yn ei ychwanegu at y dudalen.

Mae Jim yn parhau i'n cynghori ni fel aelod o Grŵp Llywio Cyngor sy'n Deall Dementia'r Cyngor.

Rydym yn falch o fod wedi datblygu cydberthnasau gwaith cadarnhaol gyda sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth mewn cartrefi gofal, gwasanaethau gofal cartref a lleoliadau byw â chymorth ar hyd a lled Sir y Fflint. Rydym yn dod at ein gilydd yn rheolaidd i gynnal trafodaethau agored a rhannu gwybodaeth drwy **Gyfarfodydd Darparwyr** bob chwarter. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cael trafodaethau maith â darparwyr ynglŷn â ffioedd, hyfforddiant a gwerth cymdeithasol, ymysg pethau eraill. Rydym hefyd wedi bwydo eu barn a'u sylwadau yn ôl i'n hymatebion i'r ymgynghoriad ar y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a datblygiad y Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod lleisiau darparwyr lleol yn cael eu clywed ochr yn ochr â'n llais ni.

**Meddai Jim Ibell, Llysgennad ar gyfer y Gymdeithas Alzheimer ac un o drigolion Sir y Fflint sy'n byw gyda dementia:**

> **"Alla' i wir ddim diolch digon i Gyngor Sir y Fflint am weithredu mor gyflym. Dim ond ym mis Gorffennaf y gwnes i grybwyll creu rhywbeth lle mae'r holl wybodaeth berthnasol i gefnogi rhywun sy'n byw gyda dementia ar gael mewn un lle, ac mae Cyngor Sir y Fflint wedi cynnwys hynny ar eu gwefan yn syth, sy'n wych."**

**“Rydw i wedi bod yn sôn am geisio gwneud hyn ers misoedd mewn gwahanol gyfarfodydd rydw i wedi bod ynddyn nhw o amgylch Gogledd Cymru, ac o’r diwedd mae o wedi cael ei roi ar waith. Fe fydd hyn yn gymorth mawr i bobl sy’n byw gyda dementia. Rydw i’n credu mai dyma’r unig ddogfen sy’n cynnwys nifer o bethau y mae angen i ni eu gwybod i gyd gyda’i gilydd. Hefyd, mae’n wych gweld Cyngor Sir y Fflint yn symud tuag at ddod yn sefydliad sy’n deall dementia. Bydd hyn yn helpu’r holl bobl yn Sir y Fflint sy’n byw gyda dementia”**

Rydym yn parhau i gyfathrebu gyda’r darparwyr rhwng cyfarfodydd dros e-bost, ac mae swyddog wedi’i ddyrannu i bob cartref gofal i’w helpu i ddarparu gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy’r rhaglen Cynnydd i Ddarparwyr, a’u helpu gydag unrhyw heriau sy’n codi.

Yn 2019/20 bu i e **Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir y Fflint,** sef grŵp o sefydliadau a gofalwyr iechyd, gofal cymdeithasol a’r trydydd sector, gwblhau adolygiad o’i ddarpariaeth a’i gymorth ar gyfer gofalwyr lleol. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys dealltwriaeth o beth sy’n gweithio’n dda o fewn y ddarpariaeth bresennol a pha newidiadau y gallem ni eu gwneud. Ond yn bwysicaf oll, bu i ni wrando ar farn y gofalwyr i sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn darparu beth sy’n bwysig iddynt hwy.

Esiampl wych arall o ofalwyr yn cymryd rhan mewn llunio gwasanaethau oedd ymarfer caffael diweddar Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Sir y Fflint. Bu pedwar gofalwr ifanc lleol rhwng 10 a 15 oed yn rhan o gyfweld y sefydliadau oedd wedi ymgeisio, gan helpu i ddewis y sefydliad darparu buddugol.

O ganlyniad i’r gwaith hwn ar y cyd â phartneriaid a gofalwyr, gallwn barhau i gefnogi gofalwyr yn Sir y Fflint mewn ffyrdd ystyrlon fydd yn eu helpu yn eu rolau gofalu a hefyd yn hybu eu lles.

Rydym yn gweithio i ddatblygu ymhellach y ffyrdd rydym yn ymgysylltu â’r cyhoedd a phartneriaid, er mwyn gallu clywed eu lleisiau a dysgu ganddynt. Rydym yn datblygu ymagwedd ar y cyd i gymryd rhan, gan gasglu gwybodaeth o’r gwasanaethau rydym yn eu darparu, er mwyn gallu cynnwys eu lleisiau yn y broses o ddatblygu’r gwasanaeth ar lefel leol a rhanbarthol.

# Hybu a gwella lles yr unigolion sy’n cael cymorth gennym

## Safon Ansawdd 1
### Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

Yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb, rydym wedi’i sefydlu **Prosiect peilot Mentrau Gofal Bychain** er mwyn gwella cyflenwad y gofal mewn cymunedau drwy ddefnyddio ffyrdd newydd ac arloesol o weithio. Rydym wedi llwyddo i ddenu cyllid gan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop a Llywodraeth Cymru drwy Cadwyn Clwyd a Chronfa Her Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru.

Rydym yn diffinio mentrau gofal bychain fel cwmnïau sy’n cyflogi hyd at 5 o weithwyr ac yn cynnig gwasanaethau gofal a chymorth hyblyg a phersonol i bobl ddiamddiffyn, wedi’u haddasu i anghenion yr unigolion. Byddai’r prosiect peilot yn weithredol tan fis Mehefin 2021 ac, ar y cyd â




Chwmnïau Cymdeithasol Cymru a budd-ddeiliaid eraill, byddwn yn helpu datblygu mentrau gofal bychain newydd yn Sir y Fflint. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar sut y gallwn ddatblygu’r mentrau hyn mewn ardaloedd gwledig, er mwyn gallu cynnig gwell cymorth i bobl. Dyma un o’r prosiectau peilot cyntaf o’i fath yng Nghymru, ac mae cymryd risgiau cadarnhaol ac arloesedd yn hanfodol er mwyn i’r peilot lwyddo.

Mae dau swyddog mentrau gofal bychain wedi bod yn eu swyddi ers cychwyn mis Medi ac wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran pennu sut y bydd y prosiect yn gweithio a mynd i'r afael â'r prif rwystrau. Maent wrthi'n gweithio gydag unigolion sydd â diddordeb mewn bod yn fusnes gofal bychan a byddant yn hyrwyddo'r prosiect peilot i helpu datblygu amrediad o wasanaethau gofal bychain ar hyd a lled Sir y Fflint.

I gychwyn, bydd unigolion yn gallu prynu gwasanaethau darparwyr bychain drwy Daliadau Uniongyrchol neu o gyllid preifat, ond ein bwriad yw gallu comisiynu eu gwasanaethau yn y dyfodol.

Er mwyn cefnogi darpariaeth Taliadau Uniongyrchol, cychwynnwyd y **Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol** ar 1 Ebrill 2019, gan ddisodli gwasanaeth a gomisiynwyd. Mae'r tîm o 5 sy'n cynnwys Rheolwr y Tîm, yn helpu dros 500 o bobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol, ac mae'r nifer hwn yn codi.

wneud penderfyniadau am eu cymorth. Mae hyn yn gweithio drwy ddarparu cyllid yn uniongyrchol i unigolion er mwyn rhoi'r hyblygrwydd, y dewis a'r rheolaeth iddynt o ran sut y maent yn cyflawni canlyniadau lles y cytunwyd arnynt. Mae'r tîm wedi bod yn galluogi pobl i lunio eu hatebion eu hunain lle bynnag y bo hynny'n bosib, yn hytrach na bod y rhain yn cael eu rhagnodi. Mae'r tîm yn darparu gwybodaeth, canllawiau a sicrwydd nes y bydd y rhai sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol yn teimlo'n ddigon hyderus i'w rheoli'n annibynnol.

Mae'r tîm yn ceisio addasu ei gefnogaeth i fodloni anghenion ac amgylchiadau pob unigolyn. Maent yn deall y gall y broses deimlo'n frawychus i rai, ond mae'r tîm yn fodlon darparu canllawiau a chymorth drwy gydol yr holl broses. Mae cael cymorth asiantaethau perthnasol eraill hefyd yn ei gwneud yn haws i dderbynwyr Taliadau Uniongyrchol i'w rheoli o ddydd i ddydd, p'un ai ydyn nhw'n cyflogi Cymorthyddion Personol, yn mynychu gwasanaeth neu weithgaredd neu'n talu am offer.



Mae ein **Rhaglen Cynnydd i Ddarparwyr** yn parhau i fynd o nerth i nerth wrth gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer unigolion sy'n byw mewn Cartrefi Gofal. Mae'r rhaglen yn defnyddio adnoddau ac arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i helpu timau staff i newid y ffordd y maent yn helpu pobl ac yn meithrin cyswllt â theuluoedd. Mae'r adnoddau hyn, sy'n cynnwys proffiliau un dudalen, cofnodion dysgu a chytundebau gwneud penderfyniadau, yn galluogi pobl sy'n derbyn gofal a chymorth i gael mwy o'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy yn eu bywydau. Mae darparwyr yn eu defnyddio i wneud pethau'n wahanol yn hytrach nag i wneud mwy.

Dyfarnwyd Gwobr Gofal Cymdeithasol i'r rhaglen yn 2018, ac mae bellach wedi cael ei chyflwyno fesul cam i wasanaethau gofal cartref sy'n helpu pobl hŷn sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain.

Yn y gwasanaethau preswyl, mae gan Cynnydd i Ddarparwyr dair lefel o achrediad: efydd, arian ac aur, ac mae dwy lefel yn y gwasanaethau cartref, sef arian ac aur. O fewn pob lefel, mae nifer o safonau i ddarparwyr eu cyflawni.

Mae 13 o Gartrefi Gofal bellach wedi cyflawni'r wobr Efydd, a 3 Chartref arall wedi cyflawni'r Arian. O fewn y rhaglen gofal cartref newydd, mae'r gwasanaethau gofal ychwanegol, ein gwasanaethau gofal cartref lleol mewnol a darparwyr y sector annibynnol wedi bod yn gweithio tuag at achrediad arian y rhaglen.

Un peth pwysig rydym wedi gallu ei wneud yw casglu hanesion am sut y mae'r rhaglen wedi effeithio ar fywydau pobl hŷn yn y sir. Dywedodd un rheolwr wrthym am ŵr oedd wedi cael diagnosis o glefyd Alzheimer, oedd weithiau'n gadael y cartref preswyl heb roi gwybod i'r staff, ac roedd cryn bryderon am



ei ddiogelwch. Gan ddefnyddio'r proffil un dudalen, siart cyfathrebu a chofnod dysgu, daeth yn amlwg yn fuan iawn fod y gŵr hwn wedi bod yn berson ymarferol iawn erioed. Cafodd ei baru â gweithiwr cynnal a chadw'r cartref a'i gefnogi i helpu gyda'r gwiriadau cynnal a chadw wythnosol.

Adroddodd y rheolwr bod y staff bellach yn cydweithio i helpu'r gŵr hwn i wneud rhywfaint o synnwyr o'r hyn sy'n digwydd iddo, gan ei ystyried yn berson sydd angen pwrpas, ac nid yn rhywun y mae'n rhaid iddynt ei rwystro rhag gadael yr adeilad ar ei ben ei hun.  Mae hyn yn ddi-os wedi gwella lles y gŵr hwn.

Rydym bellach wedi cyflwyno hyfforddiant pellach i gefnogi **Cynllunio Gofal sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol a Rheolwyr Gofal.** Diben y rhaglen hyfforddi hon yw helpu darparu Cynllunio Gofal sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau ar gyfer lleoliadau sydd wedi cyflawni achrediad Efydd drwy Cynnydd i Ddarparwyr, ac sydd bellach yn symud ymlaen tuag at achrediad Arian ac Aur.

Bydd yr hyfforddiant yn galluogi rheolwyr i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddulliau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, nodi effaith dull seiliedig ar ganlyniadau ar les a chanlyniadau dinasyddion a nodi strategaethau a ddefnyddir i sicrhau y bydd arferion seiliedig ar ganlyniadau yn parhau i gael eu hymwreiddio.

Mae galluogi pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy yr un mor bwysig yn y gymuned ag ydyw mewn unrhyw leoliad gofal cymdeithasol. Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint wedi bod yn darparu **Gwasanaethau Presgripsiynu Cymdeithasol** yn Sir y Fflint ers Ebrill 2016, pan gynhwyswyd swydd Cydgysylltydd y Trydydd Sector, a gyflogwyd gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint fel rhan annatod o Un Pwynt Mynediad Sir y Fflint.

Yn 2019, bu i Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint recriwtio Swyddog Presgripsiynu Cymdeithasol/Cydlynydd Trydydd Sector newydd  i weithio o'r Un Pwynt Mynediad i ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng meddygfeydd teulu a chymorth yn y Gymuned i gleifion.  Wedi'i leoli yn y swyddfeydd Un Pwynt Mynediad presennol, gall y swyddog derbyn atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol neu gan unigolion i'w helpu i gael gafael ar gymorth i wella eu lles. Mae eu gwaith yn datblygu ar waith yr Un Pwynt Mynediad i helpu diwallu anghenion iechyd a lles unigolion lle nad yw eu hanghenion yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cymorth statudol, neu lle bydd mynediad at gymorth y Trydydd Sector yn ategu /lliniaru'r angen am ymyriadau statudol.

Mae'r model presgripsiynu cymdeithasol a gynhelir o fewn yr Un Pwynt Mynediad hefyd wedi'i atgynhyrchu o fewn y Ganolfan Cymorth Cynnar i deuluoedd yn Sir y Fflint. Mae Cydgysylltydd y Trydydd Sector (Presgripsiynwr Cymdeithasol) yn bartner hafal o fewn cyfarfodydd asiantaeth yn y Ganolfan, ac yn helpu teuluoedd fyddai'n elwa o gael cymorth yn y gymuned. Mae yna gysylltiad agos bellach rhwng y swydd â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint, er mwyn atgyfnerthu cynnig y trydydd sector drwy'r gwasanaeth hwn.

Yn ogystal â chefnogi unigolion gyda'u hanghenion gofal a chymorth, mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint hefyd yn darparu amrediad o wasanaethau ar gyfer gofalwyr, yn fewnol a drwy eu comisiynu gan ddarparwyr trydydd sector allanol. Er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau wir yn adlewyrchu'r hyn y mae ein poblogaeth leol ei angen, buom yn cydweithio â NEWCIS (Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru) i weithredu'r argymhellion a gynhwyswyd yn **Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru.** Bu i ni ddefnyddio dull oedd yn cynnwys sawl budd-ddeiliad i ddylunio gwasanaethau'r dyfodol, lle'r oedd gofalwyr yn gallu cyfrannu eu barn a'u syniadau, gan ddweud wrthym beth sy'n bwysig iddynt hwy a beth fyddai'n helpu eu lles.

Cydgasglwyd yr adborth, ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd gan y Grŵp Strategaeth Gofalwyr, i ddatblygu cyfres newydd o ddarpariaeth, sy'n cynnwys y canlynol:

- O fis Ebrill 2020 ymlaen, cyflwyno un porth gofalwyr oedolion newydd – dywedodd gofalwyr wrthym yr hoffent allu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth yn ddidrafferth.
- Parhad y gwasanaethau Pontio'r Bwlch a Lles Gofalwyr – dywedodd gofalwyr wrthym mai seibiant, grantiau a chael gafael ar gymorth lles oedd y pethau pwysicaf iddynt, felly rydym wedi ymrwymo i barhau â'r gwasanaethau gwerthfawr hyn.
- Gwella mynediad gofalwyr at Daliadau Uniongyrchol – roedd y gofalwyr eisiau mwy o reolaeth a mwy o ddewis er mwyn cael y cymorth sy'n iawn iddynt hwy.
- Ailfodelu'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr sy'n helpu unigolion â phroblem iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau – roedd yr holl ofalwyr eisiau cael gafael ar y wybodaeth a'r cymorth cywir, a drwy ailfodelu ein gwasanaethau, gallwn ddarparu cymorth ataliol ar yr adeg iawn i ofalwyr.
- Cydweithio i ddarparu mwy o gyfleoedd i ofalwyr – roedd gofalwyr eisiau cael gafael ar fwy o weithgareddau, tripiau a gwybodaeth.

**Mae adborth gan y gofalwyr am y gwasanaethau sydd ar gael yn atgyfnerthu pam fod y gwasanaethau hyn mor bwysig ac wedi cael eu disgrifio fel gwasanaethau hanfodol i nifer o bobl.**

> **“Mae'r wybodaeth a'r cyngor mor bwysig i fy helpu i ofalu am fy ngŵr”**

> **“Mae'n bwysig iawn i mi bod yna gyfle i mi gymdeithasu gyda phobl sydd yn yr un sefyllfa â fi”**

> **“Allwn i wir mo'i wneud o heb gymorth y gwasanaethau a'r staff yma”**

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn arwyddocaol o ran datblygu a chyflwyno **4 prosiect trawsnewid rhanbarthol fesul cam ar hyd Gogledd Cymru** er mwyn dod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn agosach i gartrefi pobl, a gallai'r ffyrdd newydd hyn o weithio gael eu hatgynhyrchu ledled Cymru.

Y prosiectau hyn, a arweinir gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, yw'r diweddaraf i gael cyllid o Gronfa Trawsnewid £100 miliwn Llywodraeth Cymru. Crëwyd y gronfa i helpu ehangu modelau iechyd a gofal cymdeithasol newydd di-dor fel rhan o gynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, sef Cymru Iachach.

Rydym yn falch o gael cynnal un o'r prosiectau rhanbarthol, sef Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd. Nod y prosiect hwn yw datblygu model di-dor o wasanaethau anableddau dysgu ar sail 'beth sy'n bwysig' i'r unigolyn. Byddwn yn cyflawni hyn drwy well integreiddiad ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, gan sicrhau bod pobl gydag anableddau dysgu yn gallu byw yn fwy annibynnol a chael y gofal y maent ei angen yn agosach at eu cartref.

Mae ein tîm yn cefnogi'r 6 Awdurdod a BIPBC i ddatblygu ac ailfodelu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion cyfnewidiol pobl ag Anableddau Dysgu a'u teuluoedd, lle mae angen y gefnogaeth honno. Mae pob sefydliad eisoes yn addasu'n greadigol i ddyheadau Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru ac anghenion cyfnewidiol y boblogaeth leol. Bydd tîm Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd yn datblygu ar yr arfer hon.

Mae'r Tîm yn canolbwyntio ar feithrin cyswllt ystyrlon ag unigolion sy'n derbyn gwasanaethau, gan gynnwys plant, pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi. Ar y cyd, maent wedi cyd-gynhyrchu 'Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad Gogledd Cymru' ac wedi datblygu 'Cymuned Ymarfer' gefnogol weithredol.



Mae'r tîm hefyd yn archwilio technoleg newydd ac atebion technoleg gynorthwyol i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau ac i hybu annibyniaeth i unigolion ag Anableddau Dysgu a'u teuluoedd. Mae ystyriaeth gychwynnol yn cael ei rhoi i amrywiaeth o apiau all gefnogi symudiad annibynnol ond diogel, a lansio porth ar-lein i ddarparu gwybodaeth, cymorth ac i gyfeirio.

Mae'r Rhaglen Drawsnewid Ranbarthol ar gyfer Iechyd Meddwl wedi datblygu 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Gogledd Cymru', sef cynllun ar gyfer pob oedran i wella iechyd meddwl a lles unigolion ar hyd a lled y rhanbarth, a gyd-gynhyrchwyd ag unigolion sydd wedi cael profiad o broblemau iechyd meddwl.

Nod y strategaeth eang ac uchelgeisiol hon yw gwella iechyd meddwl plant ac oedolion, sicrhau ei fod yn cael yr un parch â iechyd corfforol a symud pwyslais y gofal tuag at atal ac ymyrryd yn gynnar.

Er mwyn helpu sicrhau y gall unigolion gael gafael ar y cymorth cynnar y maent ei angen yn y gymuned, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, awdurdodau lleol ac elusennau iechyd meddwl yn cydweithio i gyflwyno gwasanaethau newydd drwy'r ymgyrch Mi FEDRAF, sy'n ceisio:

- Rhoi llais i unigolion sydd wedi cael profiad o broblemau iechyd meddwl
- Symud pwyslais y gofal at atal ac ymyrryd yn gynnar, gan sicrhau bod unigolion yn cael y cymorth cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir
- Grymuso unigolion i gymryd rheolaeth dros eu iechyd meddwl a'u lles er mwyn gallu ffynnu
- Annog sgyrsiau agored a llawn gwybodaeth am iechyd meddwl er mwyn mynd i'r afael â'r stigma all atal pobl rhag gofyn am gymorth

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud hefyd gyda datblygu'r glasbrint ar gyfer cymorth cymunedol Mi FEDRAF newydd. Bydd hyn yn symud pwyslais y gofal tuag at atal ac ymyrryd yn gynnar, gan helpu atal unigolion rhag mynd i argyfwng, a'u cefnogi os bydd hynny'n digwydd. Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno cymorth iechyd meddwl Mi FEDRAF, rhaglen gyflogaeth Mi FEDRAF Weithio, Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl Mi FEDRAF am ddim ac amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli Mi FEDRAF.

Mae **Rhaglen Drawsnewid y Gwasanaethau Cymunedol** yn cefnogi cyflawniad cynllun iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol Cymru, sef Cymru Iachach. Mae wedi'i seilio ar yr egwyddor ei bod yn well i unigolion gael diwallu eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y gymuned lle bynnag y bo hynny'n bosib, a bod angen integreiddio mwy ar wasanaethau er mwyn diwallu anghenion. Felly mae trawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau yn y gymuned yn cael adnoddau ac yn cael eu darparu yn bwyslais allweddol o fewn y rhaglen er mwyn cyflawni'r 'newid' angenrheidiol.

Mae'r prosiect yn ceisio darparu:

- Gwasanaethau sydd wedi'u cydlynu'n dda, wedi'u dylunio o amgylch 'beth sy'n bwysig', gan sicrhau bod unigolion yn cael yr un mynediad a gwasanaethau yn eu dewis o iaith.
- Cymorth i lywio'r system iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â chael gafael ar amrediad o wasanaethau eraill fyddai'n gwella eu lles.
- Mynediad at amrediad o wasanaethau ataliol, cymorth cymunedol, cyngor a gwybodaeth.
- Mynediad at amrediad o gymorth cymunedol, gofal ac ymyriadau therapiwtig.
- Cymorth i fynd i'r afael ag argyfwng, diwedd oes a chyflyrau iechyd parhaus.

Penodwyd Rheolwr Rhaglen ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam, yn ogystal â rheolwr prosiect ar gyfer pob sir, yn ystod Hydref/Gaeaf 2019/20. Yn Sir y Fflint, roedd y gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar waith yr Un Pwynt Mynediad o ran canfod cyfleoedd i'w gryfhau ymhellach fel canolfan ar gyfer gweithio'n integredig yn y gymuned, a'r meysydd gweithredu sy'n cael blaenoriaeth.

Roedd y gwaith yn dod yn ei flaen hyd at fis Mawrth, pan ddechreuwyd teimlo effaith pandemig Covid-19 gyntaf yn lleol. Ar y pwynt hwnnw, ailgyfeiriwyd adnoddau'r rhaglen i gefnogi'r ymateb i argyfwng y pandemig, a gwasgarwyd aelodau'r tîm i gyflawni rolau amgen.

Mae'r Rhaglen Drawsnewid Ranbarthol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn cynnig grant £3 miliwn gan Lywodraeth Cymru i dreialu ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth dwys integredig i blant a phobl ifanc ar ymylon gofal.

Drwy ymrwymiad ar ran y partneriaid i wella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu i blant a theuluoedd, mae'r cynnydd

tuag at gyflawni'r nod wedi bod yn gyson, ac mae'n parhau yn ystod y sefyllfa Covid 19 bresennol.

Bydd teuluoedd a gofalwyr pobl ifanc rhwng 11 a 17 oed yn cael cynnig Therapi Aml Systemig (MST), sy'n sicrhau bod y gwasanaeth, Therapydd a Goruchwyliwr ar gael 24/7. Bydd teuluoedd yn derbyn yr ymyrraeth dros gyfnod o 3 i 5 mis, ac mae'n edrych ar yr 'eco-system' gyfan o amgylch y plentyn a'i deulu, gan gynnwys y gymuned, cyfoedion ac addysg.

Mae'r tîm bellach wedi cael ei gymeradwyo gan MST UK i gynnig y model, a bydd yn derbyn hyfforddiant o bell ym mis Ebrill 2020, gyda'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu i deuluoedd ym mis Mai. Hwn fydd y tîm cyntaf, a'r unig dîm yng Nghymru, ac mae'n gyflawniad mawr y gellir ei briodoli i ymroddiad ac ymrwymiad y partneriaid i wella cyfleoedd bywyd pobl ifanc ar ymylon gofal.

Bydd y Grŵp Llywio yn parhau i orchwylio'r prosiect ac olrhain datblygiad darpariaeth Canolfan Asesu Breswyl 12 wythnos ar gyfer y Dwyrain. Nod y ganolfan fydd lleihau nifer y teuluoedd neu'r lleoliadau sy'n chwalu, lleihau'r angen i blentyn ddechrau derbyn gofal ac os yw eisoes mewn lleoliad gofal, gweithio tuag at ei ddychwelyd i'w gartref neu leoliad mwy addas yn lleol.

## Ein blaenoriaethau yn 2020/21 fydd:

**Sicrhau bod lleisiau unigolion yn cael eu clywed a'n bod yn dysgu oddi wrthynt**

**Gweithredu'r model canlyniadau ar draws pob gwasanaeth Yn y gwasanaethau oedolion, bydd hyn yn cynnwys y model sgorio i ddangos tystiolaeth o sut y mae unigolion yn cyflawni beth sy'n bwysig iddynt**

**Gweithredu gwasanaethau gofal bychain i gartrefi pobl ar lefel gymunedol**

**Gweithredu camau lleol sy'n codi o'r Rhaglenni Trawsnewid Rhanbarthol**

**Sicrhau bod y Cynnig Gweithredol ar gyfer Eiriolaeth yn cael ei roi ar waith ar draws pob Maes Gwasanaeth**

**Cwblhau cyflwyniad Cynnydd i Ddarparwyr yn y Gwasanaethau Anabledd Dysgu fesul cam**



# Safon Ansawdd Genedlaethol 2

## Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ei gydnabod gan y Gymdeithas Alzheimer fel y Cyngor cyntaf yng Ngogledd Cymru sy'n **'Gweithio tuag at Ddeall Dementia'**

Mae rhaglen Cymunedau a Sefydliadau sy'n Deall Dementia y Gymdeithas Alzheimer yn ceisio annog pawb i rannu cyfrifoldeb dros sicrhau fod pobl gyda dementia yn teimlo eu bod yn cael eu deall, eu gwerthfawrogi ac yn gallu cyfrannu at eu cymunedau. Mae hyn yn canolbwyntio ar wella cynhwysiant ac ansawdd bywyd drwy hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth mewn cymunedau a sefydliadau, er mwyn iddynt allu ymateb yn well i anghenion unigolion sy'n byw gyda dementia a'u Gofalwyr.

Yn gweithio i fod yn Dementia Gyfeillgar 2019-2020 Working to become Dementia Friendly

Mae'r Cyngor yn gweithio yn ôl cynllun gweithredu ac wedi datblygu tudalennau gwe newydd sy'n canolbwyntio ar ddementia y gellir eu defnyddio fel cyfeiriadur o wasanaethau a gwybodaeth, ac mae'n cyflwyno hyfforddiant Cyfeillion Dementia fesul cam ar draws y gweithlu.

Er mwyn cadw'r gydnabyddiaeth, bydd y Cyngor yn cyflwyno cynlluniau gweithredu blynyddol i Gymdeithas Altzheimer, a lunnir gan Grŵp Llywio o gynrychiolwyr y Cyngor ac aelodau'r gymuned sy'n byw gyda Dementia.

Mewn perthynas â chymorth i blant a phobl ifanc, rydym wedi llunio **Partneriaeth Strategol gyda Gweithredu dros Blant,** sy'n Elusen Genedlaethol uchel ei pharch sydd wedi bod yn darparu gwasanaethau yn Sir y Fflint ers dros 20 mlynedd.

Bydd y bartneriaeth yn defnyddio gwybodaeth arbenigol a phrofiad Gweithredu dros Blant i ddarparu rhaglenni a chyfleusterau ar gyfer gofal seibiant neu egwyl i blant ag anableddau a'u teuluoedd. Bydd yn defnyddio arbenigedd y Gwasanaethau Dychwelyd ac Atal a gwaith Prosiect Teuluoedd Sir y Fflint i nodi datblygiadau strategol y gwasanaethau a ddarperir.

Mae Gweithredu dros Blant wedi bod yn cynnal 'gwasanaeth seibiant byr' ers 20 mlynedd yn Sir y Fflint ac wedi bod yn gweithredu o Arosfa ers 2012. Mae Arosfa yn cynnig gofal seibiant byr i blant ag anableddau dwys mewn amgylchedd saff a diogel, er mwyn eu helpu i aros o fewn eu teuluoedd eu hunain. Mae'r gwasanaeth yn galluogi'r bobl ifanc hyn i roi cynnig ar brofiadau a chyfleoedd newydd, meithrin perthnasoedd a datblygu eu llawn botensial.

Mae'r Prosiect Teuluoedd yn cynnig ymyrraeth wedi'i chynllunio i deuluoedd gyda phlant sydd fwyaf tebyg o fod mewn perygl o niwed, neu yr ystyrir eu bod ar ymylon gofal gan yr awdurdod lleol. Mae'r prosiect yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol sy'n canolbwyntio ar y cleient i feithrin cyswllt â'r teuluoedd er mwyn iddynt wella eu sefyllfa eu hunain.

Mae dwy nod i'r prosiect Dychwelyd ac Atal – yn gyntaf, darparu cymorth dwys a mewnbwn therapiwtig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r bobl ifanc a fu'n derbyn gofal hyd at 25 oed sy'n addas i gael eu dychwelyd i'w cymuned gartref yn Sir y Fflint. Yn ail, mae'n gweithio tuag at leihau nifer y lleoliadau sydd y tu allan i Sir y Fflint lle mae hynny ar fin digwydd.

Mae'r cytundeb partneriaeth newydd yn manylu ar rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n cydweithio tuag at nod gyffredin, trefniadau llywodraethu, cyllid a dangosydd perfformiad allweddol.

Er mwyn ategu'r cymorth sydd ar gael ymhellach, mae model newydd ar gyfer cymorth i Ofalwyr Maeth hefyd wedi'i gyflwyno, ar ffurf **'Mockingbird'**. Mockingbird yw'r model 'teulu estynedig' o ofal maeth a ddatblygwyd gan

y Rhwydwaith Maethu. Cyngor Sir y Fflint yw'r partner Mockingbird cyntaf yng Nghymru. Mae'r model arloesol hwn ar gyfer gofal maeth yn annog grŵp o ofalwyr maeth yn y gymuned leol i feddwl ac ymddwyn fel teulu estynedig (clwstwr), gan ddarparu cefnogaeth gan gymheiriaid, cyd-gynllunio a hyfforddi yn rheolaidd a chynnal gweithgareddau cymdeithasol a chysgu dros nos. Nod y rhaglen yw gwella sefydlogrwydd lleoliad ar gyfer y plentyn a'r teulu maeth a'u helpu i ddatblygu perthynas gryfach. Yn dilyn cyflwyno'r model Mockingbird, lluniwyd ein clwstwr cyntaf ym mis Chwefror 2020.

Rydym yn gweithio ar ddefnyddio technoleg ddigidol ac mae ein gwaith ar ddatblygu ein **Strategaeth Ddigidol** yn gwneud cynnydd, gyda 'Fy Nghyfrif' yn cael ei lansio yn y misoedd diweddar, sy'n galluogi trigolion Sir y Fflint i gael gafael ar amrediad o wasanaethau'r Cyngor ar lein. Er nad yw hyn yn cynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd, ar wahân i ymholiadau a chysylltiadau cyffredinol, mae'n sefydlu'r sylfaen ar gyfer gwasanaethau a chyfathrebu digidol gyda thrigolion yn y dyfodol. Yn ogystal, rydym hefyd wedi lansio gwiriwr ariannol syml ar y wefan i alluogi unigolion neu deuluoedd sy'n ystyried angen am ofal i weld a fyddai'n rhaid iddynt gyfrannu'n ariannol tuag at gostau hynny.

Rydym yn gweithio ar ddefnyddio technoleg ddigidol ac mae ein gwaith ar ddatblygu ein Strategaeth Ddigidol yn gwneud cynnydd, gyda 'Fy Nghyfrif' yn cael ei lansio yn y misoedd diweddar, sy'n galluogi trigolion Sir y Fflint i gael gafael ar amrediad o wasanaethau'r Cyngor ar lein. Er nad yw hyn yn cynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd, ar wahân i ymholiadau a chysylltiadau cyffredinol, mae'n sefydlu'r sylfaen ar gyfer gwasanaethau a chyfathrebu digidol gyda thrigolion yn y dyfodol. Yn ogystal, rydym hefyd wedi lansio gwiriwr ariannol syml ar y wefan i alluogi unigolion neu deuluoedd sy'n ystyried angen am ofal i weld a fyddai'n rhaid iddynt gyfrannu'n ariannol tuag at gostau hynny.

Yn 2018, bu i ni gomisiynu pedwar sefydliad i ddarparu cymorth i bobl ag anableddau yn y gymuned. Roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys Cydlynydd Partneriaeth, cymorth Cyfoethogi'r Gymuned a Chludiant, cymorth Technoleg a Chyfarpar ac Asesiad a Chymorth i unigolion â nam ar y synhwyrau. Mae'r sefydliadau hyn yn parhau i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned a helpu pobl Sir y Fflint i fyw gydag anabledd.

Mae'r Tîm Broceriaeth, sy'n cael gafael ar becynnau gofal i bobl yn y gymuned, bellach yn defnyddio system fapio ryngweithiol sy'n eu galluogi i chwilio am y gwasanaeth mwyaf addas i fodloni anghenion pob cais. Mae hyn o fudd i asiantaethau gofal cartref gynllunio rota hwylus ar gyfer eu staff gofal, gan gydymffurfio â chanllawiau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi ar amser teithio. Rydym hefyd wedi defnyddio'r system hon i gynllunio cartrefi gofal, cynlluniau gofal ychwanegol a thai byw â chymorth.

## Ein blaenoriaethau yn 2020/21 fydd:

**Datblygu dewisiadau cymorth i rieni a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl isel/cymedrol.**

**Datblygu ein Cynllun Gweithredu nesaf i gefnogi pobl sy'n byw gyda Dementia a'u gofalwyr, a pharhau i gael ein hadnabod fel Cyngor sy'n 'Gweithio tuag at Ddeall Dementia'**

**Sefydlu tîm amlddisgyblaethol i ddarparu asesiad a chymorth i blant a theuluoedd sydd ar ymylon gofal.**

**Gweithredu model maethu 'Mockingbird'**

**Gweithredu camau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.**

# Safon Ansawdd Genedlaethol 3

## Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Cymru yw ardal gyntaf y DU i gyflwyno un set o ganllawiau diogelu i helpu amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl. Lansiwyd **Gweithdrefnau Diogelu Cymru** yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu (11-15 Tachwedd 2019).

Bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn safoni arferion diogelu ar hyd a lled Cymru a rhwng asiantaethau a sectorau. Bydd y gweithdrefnau'n nodi beth y dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion ei wneud os ydynt yn amau bod unigolyn yn cael, neu mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn ffordd arall.

Bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael yn ddidrafferth i gymaint o bobl ag sy'n bosib ledled Cymru.

Byddant ar gael mewn dwy ffordd:

- Yn ddigidol, ar blatfform a gefnogir ar hyn o bryd gan Gofal Cymdeithasol Cymru https://www.diogelu.cymru/

- Fel Ap am ddim sydd ar gael ar gyfer Android ac iOS.

Mae unigolion sy'n cael profiad o **Drais yn Erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)** yn defnyddio amrediad o wasanaethau cyhoeddus am sawl rheswm. Efallai eu bod mewn cysylltiad â'r heddlu am y gamdriniaeth y maent yn ei dioddef, ond mae'n fwy tebygol eu bod mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus ynglŷn â materion tai, am eu bod angen sylw meddygol neu am eu bod yn rhan o'r system addysg. Rhaid i bob un o'r gwasanaethau hyn gynnig porth i gymorth ar gyfer dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar.

Mae unigolion sy'n cael profiad o Drais yn Erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn defnyddio amrediad o wasanaethau cyhoeddus am sawl rheswm. Efallai eu bod mewn cysylltiad â'r heddlu am y gamdriniaeth y maent yn ei dioddef, ond mae'n fwy tebygol eu bod mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus

Gweithdrefnau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures

ynglŷn â materion tai, am eu bod angen sylw meddygol neu am eu bod yn rhan o'r system addysg. Rhaid i bob un o'r gwasanaethau hyn gynnig porth i gymorth ar gyfer dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar.

Mae gweithlu'r Cyngor wedi bod yn cwblhau modiwl e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Mae rhai o staff rheng flaen yr awdurdod lleol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Datblygu'r Gweithlu hefyd wedi dilyn cwrs Hyfforddi'r Athrawon, er mwyn gallu hyfforddi staff rheng flaen priodol eraill i nodi, helpu a chyfeirio unigolion a effeithir gan gamdriniaeth ddomestig tuag at wasanaethau priodol.

Y llynedd, bu i ni sefydlu grwpiau strategol a gweithredol Pobl sydd ar Goll, y Camfanteisiwyd arnynt ac sydd wedi'u Masnachu (MET), er mwyn dod â nifer o asiantaethau ynghyd i rannu gwybodaeth a rheoli risgiau i blant a phobl ifanc a allai eu gwneud yn fwy agored i fynd ar goll, cael rhywun yn camfanteisio arnynt neu gael eu masnachu. Roedd hyn yn cynnwys creu swydd ddynodedig i helpu plant sydd ar goll o'u cartref. Cafodd y broses hon a'r grŵp hwn eu hadolygu eleni i sicrhau y ceir ymateb prydlon i achosion lle nodir bod camfanteisio'n risg, a bod staff wedi cael hyfforddiant digonol i allu helpu'r plant hynny'n iawn. Byddwn yn parhau i ymroi adnoddau i fynd i'r afael â phryderon camfanteisio ac ymddygiad 'llinellau sirol'.

EARLY HELP HUB
HWB CYMORTH CYNNAR

Mae **Canolfan Cymorth Cynnar Sir y Fflint** yn ddull amlasiantaeth o ddarparu cymorth a chefnogaeth gynnar wedi'u targedu i deuluoedd. Gan weithio ar draws asiantaethau, caiff staff eu cyd-leoli er mwyn cynnig dull cydgysylltiedig o ddarparu cymorth cynnar, gan ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r teulu unigol.

Mae'r Ganolfan yn un pwynt cyswllt i weithwyr proffesiynol, teuluoedd a phobl ifanc gael gafael ar gymorth cynnar ledled Sir y Fflint. Y nod yw helpu teuluoedd gyda'r cymorth cywir ar yr amser cywir gan y gwasanaeth cywir.

Mae'r Ganolfan Cymorth Cynnar, a sefydlwyd yn 2017, yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir y Fflint, Heddlu Gogledd Cymru y Bwrdd Iechyd a Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint. Mae'r Ganolfan yn fenter allweddol yn ein buddsoddiad mewn gwasanaethau teuluol ataliol, ac yn ceisio rhoi mynediad i deuluoedd plant sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod at y wybodaeth a'r cyngor cywir ar yr adeg gywir.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Ganolfan Cymorth Cynnar wedi datblygu perthynas â nifer o wasanaethau allweddol eraill sy'n gallu darparu pecynnau cymorth pwrpasol, gan gynnwys yr Uned Ddiogelwch Cam-Drin Domestig, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a'r Tîm Diwygio Lles. Maent yn ymuno â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, Tai, Addysg, Gweithredu dros Blant, y Gwasanaethau Anableddau, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Dechrau'n Deg a Teulu Cyfan (cymorth rhianta).

Ers rhoi'r Ganolfan Cymorth Cynnar ar waith, mae atgyfeiriadau bellach yn cael eu cymryd gan deuluoedd a phobl ifanc nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwasanaeth statudol, a hynny heb fod angen nodi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Golyga hyn y gall pob teulu sydd angen cymorth gael gafael ar gymorth y Ganolfan Cymorth Cynnar.

Ym mis Mai 2019, cyflwynwyd y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio). Mae'r Ddeddf yn disodli'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) â chynllun newydd a elwir yn Trefniadau Diogelu Gwarchod Rhyddid (LPS). Mae'r ddeddf newydd yn ceisio gwarchod rhyddid pobl nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu gofal, a symleiddio'r system DoLS. Bwriadwyd ei gyflwyno ddiwedd 2020, ond efallai y bydd oedi gyda hyn.

Mae'r cynllun LPS yn gymwys ar gyfer lleoliadau cymunedol yn ogystal â chartrefi gofal ac ysbytai. Mae hefyd yn gymwys ar gyfer unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn, yn hytrach na 18 oed fel sy'n berthnasol gyda'r DoLS.

Bydd y LPS yn cyflwyno system dwy haen o warchod. Golyga hyn y byddai'r 'corff cyfrifol' (yr Awdurdod Lleol mewn achosion gofal cymdeithasol a'r GIG mewn ysbytai) yn dibynnu yn y mwyafrif o achosion ar nifer o asesiadau i sefydlu a yw'r trefniadau gofal a gynlluniwyd yn 'angenrheidiol ac yn gymesur' i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Yn y mwyafrif o achosion, bydd y corff cyfrifol yn craffu'r asesiadau ac, os yw'n briodol, yn awdurdodi'r colli rhyddid. Mewn achosion cymhleth, bydd Ymarferydd Galluedd Meddyliol Cymeradwy yn cael ei benodi i gynnal asesiad mwy manwl, fydd yn cynnwys cyfweliad â'r unigolyn dan sylw.

Rydym yn parhau i weithio'n unol â'r canllawiau DoLS presennol tra byddwn yn paratoi ar gyfer rhoi'r LPS ar waith.

## Ein blaenoriaethau yn 2020/21 fydd:

**Ymwreiddio Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan**

**Rhoi'r Trefniadau Diogelu Gwarchod Rhyddid ar waith**

# Safon Ansawdd Genedlaethol 4

## Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

Ym mis hydref, dathlwyd agoriad swyddogol **Hwb Cyfle,** y Ganolfan Ddydd newydd i Oedolion, sy'n cymryd lle Glanrafon yn Queensferry.

Mae Hwb Cyfle yn cynnig lleoliad hygyrch a bywiog i unigolion ag anableddau dysgu dderbyn cymorth a gofal seibiant, datblygu sgiliau, meithrin cyfeillgarwch a chynyddu eu hannibyniaeth.

Sefydlwyd partneriaeth lwyddiannus rhwng y Cyngor a Hft. Mae hyn wedi gwella ansawdd y gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu drwy gyfuno arbenigedd a phrofiad i gyflwyno syniadau newydd a dulliau ac arferion sy'n arwain y farchnad. Mae'r Hwb yn cynnig cymorth a gofal seibiant i bobl ag anableddau dwys a lluosog.

Mae Hwb Cyfle yn cynrychioli buddsoddiad cyfalaf o £4 miliwn gan Gyngor Sir y Fflint, sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o safon i oedolion diamddiffyn. Bydd yn helpu pobl i gymryd rheolaeth dros eu bywydau ac ysgogi mwy o annibyniaeth a dewis. Mae'r adeilad newydd yn gwbl fodern ac mae defnyddwyr gwasanaeth, aelodau o'u teuluoedd a'n staff ni wedi bod yn mwynhau'r cyfleuster ers i'r drysau agor ym mis Mehefin.

Roedd yr agoriad swyddogol yn cynnwys arddangosfa ryngweithiol o'r gwasanaethau sydd ar gael a thaith o amgylch






yr adeilad, yn ogystal â seremoni claddu capsiwl amser yn yr ardd synhwyraidd.

Mae Sir y Fflint wedi arwain y ffordd gyda phob partner allweddol i ddatblygu'r ganolfan hon sydd â'r nod o integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn well, i helpu grymuso pobl sydd ag anableddau dysgu i fanteisio ar fwy o gyfleoedd yn eu cymuned leol. Mae'r cyfleuster a'r gwasanaeth ar flaen y gad yng Nghymru.

Erbyn hyn, mae Hwb Cyfle bellach wedi cael statws swyddogol fel lleoliad 'Lleoedd Newid'. Mae Lleoedd Newid yn ymgyrch genedlaethol sy'n ceisio darparu toiledau a chyfleusterau newid cymunedol hygyrch ar gyfer pobl ag anableddau. Mae dros chwarter miliwn o bobl yn y DU angen toiledau 'Lleoedd Newid', ond dim ond ychydig dros 1,000 sydd yna ledled y DU. Mae Hwb Cyfle nawr yn darparu'r trydydd toiled 'Newid Lleoedd' cofrestredig yn Sir y Fflint. I gychwyn, bydd y cyfleuster 'Newid Lleoedd' hwn ar gael i'r cyhoedd yn ystod oriau gwasanaeth, bum diwrnod yr wythnos.

Yn y dyfodol, mae yna gynlluniau i Hwb Cyfle fod ar agor gyda'r nosau ac ar benwythnosau i gefnogi gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r gymuned ehangach.

Yn y DU, mae tua 6% o oedolion ag Anableddau Dysgu mewn swyddi cyflogedig. Yng Nghymru, dim ond 2% yw'r ffigwr hwn. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn, mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio mewn partneriaeth â Tai Clwyd Alyn, Coleg Cambria a'r Darparwr Gwasanaethau Anableddau Dysgu, Hft, i gynnig rhaglen gyflogaeth a gefnogir o'r enw **Prosiect SEARCH.**

Bu i'r rhaglen Prosiect SEARCH, a gychwynnodd ym mis Medi 2019, gynnig interniaethau gyda chefnogaeth i naw o oedolion ifanc mewn nifer o weithleoedd yn y Fflint. Bu i'r Interniaid ffynnu yn eu lleoliadau ac mae eu cyfraniad wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar bob un o'r



busnesau a gymerodd ran yn y prosiect, gan gynnwys Aura, Clwyd Alyn a swyddfeydd y Cyngor. Datblygodd yr Interniaid sgiliau a phrofiad ymarferol i'w galluogi i gyflawni eu potensial, ac maent bellach yn gweithio ar gael swyddi llawn amser.

Bydd y prosiect yn symud ymlaen i'w ail flwyddyn yn ystod haf 2020, pan fydd grŵp newydd yn cael eu croesawu i'r fenter.

Er mwyn parhau i gefnogi pobl ifanc, rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn y meysydd Addysg a Ieuenctid i gyflawni'r **diwygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** a chefnogi unigolion drwy'r cyfnod Pontio.

Mae'r Ddeddf ADY yn disodli'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) bresennol gyda system ddiwygiedig wedi'i seilio ar Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella cydweithrediad rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Er mwyn caniatáu digon o amser i leoliadau baratoi i roi'r Cod newydd ar waith, bydd y system newydd yn cael ei chyflwyno fesul cam o fis Medi 2021 ymlaen.



Dathlodd Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru (GAIGC) ei ail ben-blwydd ym mis Mehefin 2020. Ochr yn ochr â chefnogi oedolion awtistig i gyflawni eu deilliannau, maent wedi bod yn gweithio i ddarparu canolfannau cyngor yn y gymuned, grwpiau cefnogi a hyfforddiant ar draws y rhanbarth ac agorwyd Canolfan Beacon yng Nghaernarfon. Mae'r gwasanaeth wedi'i ganmol am y straeon canlyniadau bywyd rhagorol a gyflwynwyd i CLILC a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i fywydau bob dydd oedolion awtistig yng Ngogledd Cymru.

Mae 'Spectrum Voices' yn grŵp o oedolion awtistig sy'n cefnogi datblygiad y gwasanaeth ac mae'r aelodau erbyn hyn yn darparu hyfforddiant ochr yn ochr â staff y gwasanaeth awtistiaeth i weithwyr proffesiynol, cydweithwyr y trydydd sector a'r cyhoedd gan ddod â'u profiad personol i'r sesiynau.

Rydym yn parhau i helpu teuluoedd drwy'r **Cynnig Gofal Plant,** gan helpu rhieni sy'n gweithio i gael gafael ar ofal plant sy'n fforddiadwy, ar gael ac yn hygyrch. Mae rhaglen Llywodraeth Cymru yn darparu 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar wedi'i ariannu gan y llywodraeth i blant 3 a 4 oed rhieni sy'n gweithio, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Mae'r cynnig hefyd yn cefnogi adfywio economaidd, yn lleihau'r pwysau ar incwm y teulu ac yn helpu rhieni i gael gwaith, gan leihau perygl y teulu o dlodi. Mae hefyd yn helpu cynnal ac ailfodelu'r sector gofal plant.

Mae dros 2,300 o blant wedi manteisio ar y Cynnig ers mis Medi 2017, gyda'r arian yn cael ei roi'n uniongyrchol i'r darparwyr gofal plant. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar blant, teuluoedd ac incwm aelwydydd a sectorau.
IYm mis Chwefror 2019, buom hefyd yn llwyddiannus yn ein cais i Lywodraeth Cymru am Grantiau Cyfalaf Cynnig Gofal Plant, a ddyfarnwyd i 14 o leoliadau i'w galluogi i gynyddu nifer y lleoedd Cynnig Gofal Plant y gallant eu cynnig, neu wella ansawdd y cyfleusterau.

Yn ogystal â'r grantiau mawr, mae Sir y Fflint hefyd wedi cael £500,000 pellach ar gyfer grantiau cyfalaf bychain, lle gall lleoliadau'r Cynnig Gofal Plant wneud cais am hyd at 10k y flwyddyn am ddwy flynedd, ar sail meini prawf cymhwyso. Agorwyd y ceisiadau ym mis Medi 2019, yn dilyn tri gweithdy llwyddiannus gyda darparwyr gofal plant, yn egluro'r meini prawf a'r broses wneud cais. O fewn y mis cyntaf, cafwyd gwerth dros £30,000 o geisiadau. Y bwriad yw y bydd y grantiau'n helpu lleoliadau i greu profiad cadarnhaol i'r plentyn pan fyddant yn mynychu eu lleoliad blynyddoedd cynnar, gan gefnogi eu datblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol.



**Mae hyn eisoes wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, fel y mae'r dyfyniadau isod yn tystio:**

**"Diolch yn fawr iawn i chi am gymeradwyo'r grant, mae'r gwahaniaeth yn anhygoel.**

**Gofalwr plant diolchgar iawn"**



"Mae gennym ni rŵan gaban pren newydd gwych i'r plant chwarae ynddo ac rydym wedi cynyddu ein niferoedd i 6 plentyn dan 5 oed, ac wedi derbyn dau o blant eraill ar y cynnig gofal plant! Diolch i chi am hyn i gyd! Rydym ni am gael cymaint o hwyl ac mae'r plant eisoes yn gofyn i gael 'mynd i'r caban', er ei bod braidd yn oer yna ar hyn o bryd! Byddem wrth ein boddau'n rhoi trydan ynddo er mwyn gallu ei ddefnyddio cymaint ag y gallwn, ond bydd rhaid i ni weld beth sy'n digwydd ym mis Ebrill. Dw i mor falch ohono!"

## Ein blaenoriaethau yn 2020/21 fydd:

Gweithio gyda phobl ifanc a darparwyr addysg bellach i foderneiddio a chreu cyfleoedd i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol gael mynediad at addysg

Parhau i gyflwyno'r model cynnydd fesul cam ar draws y Gwasanaethau Anableddau drwy'r Tîm Cynnydd a ariennir gan yr ICF, i leoliadau gwaith â chefnogaeth a lleoliadau gofal preswyl er mwyn hybu sgiliau ac annibyniaeth.

Gweithio ar ddatblygu a gweithredu model lleol o 'Dîm o Amgylch yr Unigolyn' er mwyn helpu'r unigolion hynny sy'n byw gyda Dementia.

# Safon Ansawdd 5
## Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd iach a diogel yn y cartref, gyda'r teulu ac yn bersonol

Cafodd y Gwasanaethau Plant adborth gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn dilyn eu gwaith deuddydd â ffocws gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint. AGC sy'n gyfrifol am gofrestru, arolygu a chymryd camau i wella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau er lles pobl Cymru. Roedd AGC yn adolygu ein hymagwedd tuag at wybodaeth, cyngor, cymorth, Cymorth Cynnar a phrofiad y plant sy'n cael eu cyflwyno i'r system derbyn gofal.

Roeddem wrth ein boddau bod yr adborth ar gyfer y gwasanaeth cyfan yn arbennig o dda, gan adlewyrchu'n gryf y gwaith cadarnhaol y mae'r staff yn ei gyflawni wrth helpu a gwarchod plant a theuluoedd.

Nododd AGC eu bod yn hyderus bod y plant yn cael eu diogelu, nad oedd unrhyw blentyn yn cael ei roi mewn perygl a bod tystiolaeth dda o gydymffurfiad â rheoliadau statudol. Ar y cyfan, bu iddynt nodi bod lefel y cofnodi a'r manylion yn arbennig o dda.

Ategwyd y gwaith cadarnhaol ymhellach pan ddaeth neges e-bost i law gan deulu maeth, oedd yn canmol gwaith y tîm o ran sicrhau lleoliad parhaol i blentyn.

Rydym yn hynod falch o bob un aelod o'n gweithlu sy'n chwarae rhan hanfodol bob dydd mewn cyflawni ein hymrwymiad i leoliadau diogel, cefnogol ac o ansawdd uchel, sy'n helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a'r gwytnwch i fyw bywydau cyflawn.

**Dywedodd y Gofalwyr Maeth fod un o aelodau'r tîm...**

> **“yn ei annog ac i'w gweld yn ei “ddeall” o. Mae'n gysur mawr i ni ei bod yn parhau i'w helpu yn ei leoliad newydd.”**

> **“Dros y misoedd dilynol, wnaeth hi ddim colli golwg unwaith ar bwysigrwydd canfod y lleoliad cywir, a sicrhaodd ein bod ni'n cael ein cefnogi i barhau i ofalu amdano tan y diwrnod hwnnw.”**

Mae'r**'Prosiect Braenaru Blynyddoedd Cynnar'** yn brosiect newydd a gychwynnwyd gan Lywodraeth Cymru. Nod y Prosiect Braenaru yw gwneud gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar ledled Sir y Fflint yn fwy hygyrch i bob plentyn rhwng 0 a 7 oed a'u teuluoedd, gan sicrhau bod pob plentyn yn derbyn cynnig cyffredinol sy'n deg ar draws y sir, a darparu gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar sy'n amserol, yn briodol ac yn ataliol yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Mae pedwar rhan i'r 'Prosiect Braenaru' er mwyn cynnig y cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn:

- Lechyd, rhianta, lleferydd ac iaith a gofal plant.
- Modelau proffilio a phrofi integreiddio a thrawsnewid
- Datblygu gwasanaethau gwybodus yn lleol
- Enillion ar fuddsoddiad .

Ym mis Ionawr 2019, gwahoddwyd yr awdurdodau lleol i ddod yn 'Ardaloedd Braenaru Blynyddoedd Cynnar' a daeth Sir y Fflint yn unig Ardal Braenaru Blynyddoedd Cynnar Gogledd Cymru. Amcanion y prosiect cyd-gynhyrchiol Braenaru yw:

- Archwilio beth sydd ei angen i greu system Blynyddoedd Cynnar yn Sir y Fflint (o genhedliad i 7 mlwydd oed);
- Archwilio sut y gellid ad-drefnu'r gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar o fewn cyllidebau presennol;
- Cydweithio i gyflwyno gwasanaethau mewn ffordd cydgysylltiedig, integredig ac amserol, gan gynnwys pontio effeithiol rhwng gwasanaethau;
- Canolbwyntio ar wella cydlyniant gwasanaethau, cynllunio, comisiynu a nodi anghenion a mynd i'r afael â hwy;
- Canfod rhwystrau i integreiddio a thrawsnewid, a'u goresgyn.

Er mwyn parhau i helpu plant a theuluoedd, cytunwyd ar ein **Strategaeth Lleoliad a Chymorth 2019 i 2020** gan y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2019.

Ein nod yw cefnogi'r garfan hon o blant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu datblygu'r sgiliau a'r gwytnwch i arwain bywydau cyflawn, gan ganolbwyntio ar helpu teuluoedd i ofalu am eu plant eu hunain a'u hatal rhag bod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal, os yw'n ddiogel gwneud hynny. Os bydd angen lleoliad, byddwn yn gweithio tuag at ddiwallu eu hanghenion. Mae arferion sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn hanfodol i ddarparu lleoliadau priodol i blant, ac i sicrhau eu bod yn cael cymorth gyda'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy. Caiff hyn ei ategu gan broses effeithlon i ganfod y lleoliad gorau ar yr adeg orau.

## Felly mae'r strategaeth wedi'i rhannu'n dri maes:

1. **Lleihau nifer y plant sydd angen derbyn gofal, yn ddiogel. Mae hyn yn golygu:**

✓ **gwella ein cynnig o gymorthdwys i deuluoedd sy'n amserol ac yn effeithiol**

✓ **gweithio gyda theuluoedd er mwyn iddynt allu datblygu eu gwytnwch ac, os bydd angen, datblygu eu trefniadau cymorth eu hunain, yn enwedig ar gyfer plant dros 16 oed**

✓ **sefydlu tîm amlddisgyblaethol i ddarparu asesiadau a chymorth dwys er mwyn atal problemau rhag gwaethygu ac i gefnogi lleoliadau effeithiol yn y gymuned**

2. **Cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau lleol o safon uchel. Mae hyn yn golygu:**

✓ **creu mwy o leoliadau gofal maeth awdurdod lleol**

✓ **twf** wedi'i dargedu yn y lleoliadau maethu annibynnol sydd ar gael

✓ **cydweithio** â darparwyr lleol a rhanbarthol i ail-lunio'r ddarpariaeth i fodloni anghenion lleol

✓ **ysgogi** twf mewn darpariaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl ac emosiynol cymhleth

✓ **datblygu** ein dull o gomisiynu gyda gwell atgyfeiriadau'n arwain at leoliadau sy'n cydweddu'n well

3. **Gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn golygu:**

✓ **cyflawni** ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol

✓ **gweithio** gyda'r sector annibynnol i greu mwy o bwyslais ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol

## Ein blaenoriaethau yn 2020/21 fydd:

Gweithio i leihau yn ddiogel nifer y plant sy'n mynd i'r system ofal, a gwella canlyniadau'r plant sydd mewn gofal

Gweithredu'r Rhaglen Gyllido Hyblyg i ddarparu cynnig cydgysylltiedig ac wedi'i dargedu i helpu gwytnwch teuluoedd



# Safon Ansawdd 6
## Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i sicrhau gwell lles economaidd, gwell bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion

Agorwyd, **Cynllun Gofal Ychwanegol Llys Raddington,** oedd yn ddatblygiad gwerth £10 miliwn, yn swyddogol ym mis Tachwedd gan Hannah Blythyn, AC a'r Dirprwy Weinidog dros Dai a Llywodraeth Leol. Cymdeithas Dai Clwyd Alyn sydd berchen yr adeilad, sy'n elfen allweddol o waith adfywio canol tref y Fflint, a chaiff ei reoli mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint.

Mae Llys Raddington yn cynnwys 73 o fflatiau hunangynhwysol gydag un a dwy ystafell wely, bwyty a lolfa ystafell haul ar y llawr uchaf sy'n edrych allan dros y dref, yn ogystal ag ystafell wely i westeion ac ystafell ymolchi â chymorth.

Caiff y tenantiaid eu cefnogi gan dîm o weithwyr gofal proffesiynol ar y safle, ac mae yna lawr cof pwrpasol i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.

**Yn ôl y tenantiaid, maent yn teimlo'u bod yn rhan o gymuned ac yn gallu cadw eu preifatrwydd a'u hannibyniaeth eu hunain ar yr un pryd.**

**“Dwi'n hoffi'r teimlad o ddiogelwch yma a bod cymorth wrth law pan fo'i angen”**

**meddai Jacqueline Jones a symudodd i Llys Raddington ar y diwrnod yr agorodd y cynllun gyntaf yn 2018.**

**“Mae'r lleoliad yn ardderchog gan ei bod hi'n hawdd picio mewn i'r dref. Merch leol o ardal y Fflint ydw i ac mae parhau i fod yn rhan o'r gymuned yn bwysig iawn i mi.”**

Dilynwyd y datblygiad hwn yn fuan iawn gyda chwblhad **Cynllun Gofal Ychwanegol Plas yr Ywen.** Cynllun Gofal Ychwanegol newydd Plas yr Ywen yn Nhreffynnon, sydd werth £8.5 miliwn, yw pedwerydd cynllun gofal ychwanegol Sir y Fflint, a bydd yn darparu gwasanaethau i denantiaid dan bartneriaeth rhwng Wales and West Housing a Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint.

Mae'r cynllun newydd, sydd wedi'i leoli ar safle cyn Ysgol Perth y Terfyn ar Ffordd Helygain, Treffynnon, yn cynnig 55 o fflatiau un a dwy ystafell wely i bobl dros 50 oed sy'n byw yn Sir y Fflint ac sydd ag anghenion gofal a chymorth. Mae'r cynllun yn dilyn y model 'tai â gofal' llwyddiannus, gyda thîm gofal a chymorth ar y safle ac amrywiaeth o gyfleusterau i hybu a chefnogi byw'n annibynnol. Gan atgynhyrchu Llys Jasmine a Llys Raddington, mae gan Plas yr Ywen saith fflat ar ei lawr cof i gefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia neu'n colli eu cof.

Bydd gwaith adeiladu'n cychwyn eto yn 2020 ar **estyniad i Gartref Gofal Marleyfield House** ym Mwcle. Bydd yr estyniad, a ariennir gan y Rhaglen Tai Arloesol, Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig a Rhaglen Gyfalaf Cyngor Sir y Fflint, yn darparu 32 o ystafelloedd gwely ychwanegol yn y cartref. Bydd hyn yn cynyddu'r lle i leoliadau preswyl ac yn darparu lle ychwanegol i leoliadau camu i fyny camu i lawr, sy'n cefnogi pobl nad oes angen iddynt aros yn yr ysbyty mwyach, ond sydd angen cymorth ychwanegol i aros yn annibynnol yn eu cartref. Bydd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Marleyfield House presennol ac yn creu un safle di-dor y gall pob un o'r trigolion ei ddefnyddio a'i fwynhau pan fydd wedi'i gwblhau.

Mae sicrhau bod gennym ddyluniad eithriadol fydd yn diwallu anghenion y trigolion yn awr ac yn y dyfodol yn hanfodol i



lwyddiant yr estyniad hwn. Mae casglu barn yr unigolion ar y dyluniad yn rhan hanfodol o'r broses honno.

Ym mis Mehefin 2019, cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori yn y Ganolfan ddydd yn Marleyfield House, er mwyn i drigolion presennol y cartref, aelodau teulu, aelodau'r gymuned leol a'r staff gael gweld y dyluniadau, a chael cyfle i wneud sylwadau a gofyn unrhyw gwestiynau oedd ganddynt. Cafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol wrth i'r rhai a fynychodd weld cynlluniau'r ystafelloedd, delweddau 'argraff arlunydd' o du allan y adeilad a'r dyluniadau tirwedd, fydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr adeilad presennol.

Byddwn yn parhau i gynnwys y trigolion a'r gymuned leol wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo, gyda newyddlenni a chyfarfodydd rheolaidd â'r trigolion a'r staff i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am yr hyn sy'n digwydd ar y safle. Os yw'n briodol ac yn ddiogel, byddwn hefyd yn trefnu ymweliadau â'r safle er mwyn cynnwys y trigolion ymhellach.

Bydd yr adeilad yn ddatblygiad arloesol a fydd yn gweithio'n agos â'n cydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu gwasanaethau ardderchog i bobl yn Sir y Fflint.  Bydd hefyd yn darparu templed ar gyfer sicrhau bod ein gwasanaethau'n parhau i gyflawni canlyniadau o safon uchel a'u bod yn addas ar gyfer galw'r dyfodol.

Yn ogystal â thai ar gyfer pobl hŷn, rydym yn gweithio ar fynd i'r afael ag **anghenion tai unigolion ag anableddau dysgu neu gorfforol.** Rydym yn parhau i reoli anghenion unigol ar gyfer tai drwy ein perthynas â darparwyr tai, ac mae un o reolwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu arbenigaeth a pherthynas da â'r sector tai.

Rydym hefyd yn gweithio ar ddarparu tŷ dros dro sy'n darparu gofal camu i lawr ar gyfer 4 o bobl, er mwyn gallu rhyddhau pobl o'r ysbyty yn effeithiol. Mae'r tŷ, sef cyn dŷ'r Warden, wedi cael ei nodi a'i addasu mewn partneriaeth â'r Tîm Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r Tîm anableddau corfforol yn arwain ar ddarparu gwasanaeth.

Yn ogystal, fel rhan o raglen gyllid Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, mae Cymdeithas Tai Wales and West yn goruchwylio datblygiad 12 fflat newydd yn benodol i alluogi pobl sy'n byw gyda Dementia ac Anableddau Corfforol yn y Fflint i fyw'n annibynnol.  Dylai'r eiddo fod wedi'u cwblhau erbyn diwedd Haf 2020.

Mae'r **Swyddog Digartrefedd** yn cael ei gynnal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn gweithio ar y cyd â Swyddog Llety Digartrefedd o fewn yr Adran Tai. Mae'r Swyddogion yn gweithio'n agos â nifer o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'r prosiect hwn yn gweithio i atal digartrefedd ymysg pobl ifanc a chysylltiad pellach â risgiau, ac mae wedi helpu pobl ifanc i symud i fyw'n annibynnol, byw â chymorth neu aros gartref.



Mae chwech Awdurdod Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cydweithio i weithredu Cytundeb Gofal Cartref sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gomisiynu gwasanaethau gofal cartref yn llwyddiannus. Arweiniodd ail gam y ffrwd waith hon at ddatblygu'r **Cytundeb Byw â Chymorth.** Mae bod wedi sefydlu'r cytundebau hyn yn galluogi comisiynwyr i dendro gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Datblygwyd manyleb y gwasanaeth byw â chymorth i gynnwys gwasanaethau hyblyg; gall byw â

chymorth edrych yn wahanol i wahanol bobl ac nid yw'n fodel gwasanaeth a ragnodir. Gallai'r gwasanaeth gynnwys gofal personol, gweithgareddau bywyd bob dydd a thasgau ymarferol, ac gallai gynnwys ychydig oriau o gymorth neu gymorth 24 awr. Mae'r gwasanaeth yn hybu mynediad teg at ddarpariaeth gymunedol leol er mwyn bodloni anghenion a chanlyniadau sydd wedi'u hasesu.

Sefydlwyd yr adnodd hwn er mwyn gwneud y broses o gomisiynu gwasanaethau'n fwy effeithiol ar gyfer y comisiynydd a'r darparwr, gan leihau amserlenni tendro'n ddramatig. Bydd y cytundeb yn cynnwys darparwyr sydd wedi bodloni meini prawf penodol fel rhan o'r broses dendro sydd, yn ei thro, â safon benodol. Mae'r darparwyr wedi dewis yr ardaloedd y maent yn dymuno gweithio ynddynt, a ddisgrifir fel Lotiau, h.y. Lot 5: Sir y Fflint.  Cafodd y darparwyr gyfle i wneud cais am bob Lot neu am Lotiau penodol unigol yr oedd yn well ganddynt weithio ynddynt.

## Ein blaenoriaethau yn 2020/21 fydd:

**Cwblhau'r Rhaglen Gofal Ychwanegol**

**Datblygu cynlluniau ymestyn gofal preswyl mewnol**

**Cynyddu ymyrraeth gynnar a chymorth i atal digartrefedd ymysg pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed**

**Lansio gwasanaeth preswyl tymor byr i ddylanwadu ar y lleoliad symud ymlaen a'r pecyn cymorth mwyaf priodol i bobl ifanc.**



*Un o drigolion Wellfield gyda Rosie'r ci.*

# Sut rydym yn cyflawni'r hyn

## Ein gweithlu a sut rydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol

Mae **cofrestru gweithwyr gofal cartref** dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn rhan bwysig o ddatblygiad parhaus y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae cofrestru'r gweithlu yn hanfodol o fis Ebrill 2020 ymlaen. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn i helpu staff mewnol i gofrestru, a chynhaliwyd sawl digwyddiad dros yr haf er mwyn cychwyn ar y broses gofrestru.

Bydd Cofrestru gweithwyr Cartrefi Gofal yn cychwyn ym mis Ebrill 2020, gyda'r cofrestriad yn orfodol o Ebrill 2022 ymlaen. Byddwn yn parhau i helpu'r gweithlu i gyrraedd y terfynau amser hyn, a hefyd yn ymateb i ymgynghoriadau ar reoliadau newydd dan y Ddeddf, gan sicrhau bod llais darparwyr gofal cymdeithasol y sector annibynnol yn cael ei gynnwys yn ein hymatebion.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi rôl benodol yr Unigolyn Cyfrifol a'u dyletswyddau dynodedig mewn perthynas â gwasanaethau a reoleiddir. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn cyrraedd y safon ofynnol a nondir yn y rheoliadau. Mae'r safonau hyn wedi'u cysylltu â'r datganiad o ganlyniadau lles a gyhoeddwyd dan Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n pwysleisio pwysigrwydd lles unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae'r Rheoliadau'n nodi'r dyletswyddau a roddir ar yr Unigolyn Cyfrifol dynodedig mewn perthynas â gwasanaeth a reoleiddir. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys:

- goruchwylio rheolaeth y gwasanaeth, gan gynnwys penodi rheolwr addas a chymwys
- sicrhau goruchwyliaeth effeithiol y gwasanaeth, gan gynnwys sicrhau bod digon o adnoddau ar gael
- adolygu a gwella safon y gwasanaeth
- hybu diwylliant o fod yn agored ac yn atebol

Penodwyd Mark Holt fel Unigolyn Cyfrifol Sir y Fflint yn 2018 ac mae ganddo 19 mlynedd o brofiad o fewn Awdurdodau Lleol, ac yn benodol o fewn gwasanaethau pobl hŷn. Mae Mark wedi gweithio ar lefel comisiynu strategol yn ogystal â bod yn Reolwr Gwasanaeth ar gyfer gofal preswyl, gofal ychwanegol a gofal cartref yn Sir y Fflint.

I gryfhau'r sector ymhellach, ynghyd â chofrestriad, mae cyfres newydd o gymwysterau wedi'u cyflwyno gan Cymwysterau Cymru. Mae ein Tîm Datblygu Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio i gefnogi anghenion hyfforddi'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r Ganolfan Asesu yn Ewlo wedi ei chymeradwyo gan City & Guilds/CBAC i gyflwyno'r cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd ar lefel 2 Craidd a lefelau 2 a 3 Ymarfer. Bydd y ganolfan asesu yn gweithio tuag at ennill cymeradwyaeth ar gyfer y cymwysterau Lefel 4 a 5 newydd tuag at ddiwedd 2020.

Mae'r tîm hefyd wedi bod yn darparu cymorth parhaus ar gyfer hyfforddiant cymhwyso ac ôl gymhwyso gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Mae yna 38 myfyriwr Gwaith Cymdeithasol wedi bod ar leoliadau yn y sir mewn timau yn y sectorau statudol, annibynnol a gwirfoddol eleni. Mae 15 o Weithwyr Cymdeithasol wedi cwblhau eu dyfarniad Cadarnhau i'w galluogi i ailgofrestru yn eu

cyfnod 1af o ymarfer ar ôl cymhwyso, sydd bellach yn ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

after qualifying, which is now a requirement of Social Care Wales.

Hefyd yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi mynd trwy broses gomisiynu gadarn er mwyn sicrhau ein bod yn darparu hyfforddiant craidd o ansawdd uchel. Mae contractau wedi eu dyfarnu'n ddiweddar a bydd Darparwyr Hyfforddiant newydd yn cael eu cyflwyno. Mae'r **Cynllun Talebau Hyfforddiant** hefyd wedi ei adolygu ac o ganlyniad, bydd system fwy teg ac effeithiol yn dechrau ym mis Ebrill 2020.

Rydym wedi bod yn croesawu technolegau newydd wrth hyfforddi ac mae gennym system Realiti Rhithwir y gallwn ei defnyddio. Mae **Eiriolwyr Digidol** wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r system a byddwn yn hyrwyddo hyn a chyfarpar arall mewn lleoliadau cartrefi gofal. Bydd y system Realiti Rhithwir yn cael ei defnyddio i gyflwyno Sesiynau Ymwybyddiaeth o Ddementia.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dathlu eu blwyddyn gyntaf o weithio yn yr amgylchedd newydd yn **Tŷ Dewi Sant.**

Ym mis Hydref 2019, symudodd Tîm Datblygu Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol o Barc Busnes Maes Glas i gyfleusterau newydd yn Nhŷ Dewi Sant. Mae hyn wedi dod â'r Tîm Datblygu'r Gweithlu yn agosach at y Gwasanaethau




Cymdeithasol, gan eu galluogi i weithio'n agosach a defnyddio'r cyfleusterau hyfforddi.

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig hefyd wedi ymsefydlu yn Nhŷ Dewi Sant, sydd â chysylltiad gwych â'r A55 ar gyfer eu gwaith ar hyd a lled Gogledd Cymru.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cychwyn ar daith i herio a newid ein prosesau recriwtio traddodiadol, yn benodol ar gyfer staff gofal cymdeithasol. Mae'r ymgyrch Gofalwn yn nodi bod 'Cymru angen tua 20,000 yn fwy o bobl i weithio yn y maes gofal erbyn 2030', ac er mwyn diwallu'r angen hwn rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud mwy i arddangos a hyrwyddo gwaith gofal fel gyrfa werthfawr, llawn boddhad.

Bydd Helen Sanders Associates a'r timau Lles yn darparu rhaglen o sesiynau **Recriwtio ar Sail Gwerthoedd** i staff mewnol ac o'r sector annibynnol, er mwyn ein helpu i ddatblygu dulliau newydd, nid yn unig i ddenu pobl i'r sector, ond i ddenu'r bobl gywir gyda'r gwerthoedd cywir.

Mae'r rhaglen wedi datblygu ers y sesiwn gychwynnol i redeg mewn dwy ran ochr yn ochr. Yn gyntaf, datblygu a gweithredu Recriwtio ar Sail Gwerthoedd o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym

wedi ail ddylunio ein prosesau recriwtio ar gyfer ein Cynllun Gofal Ychwanegol, sef Plas yr Ywen, gan ganolbwyntio ar werthoedd. Mae diwrnodau gweithdai recriwtio bellach yn cael eu cynnal, lle mae ymgeiswyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, yn hytrach nag eisteddo flaen panel ffurfiol, a'r rheiny'n cynnwys ymarferion tîm, gwrando a chyfathrebu a sefyllfaoedd 'beth os'. Am ran o'r diwrnod, bydd yr ymgeiswyr yn cael te pnawn gyda phobl y gallent fod yn darparu gofal a chymorth iddynt. Bydd staff ac unigolion sy'n derbyn gwasanaethau yn arsylwi'r gweithdai hyn, gan edrych ar sut y mae'r ymgeiswyr yn rhyngweithio â'r unigolion ac yn dangos eu gwerthoedd personol.

Yn ogystal, mae tîm bychan o 4 bellach wedi cael eu hachredu fel Hyfforddwyr Recriwtio ar Sail Gwerthoedd drwy'r Timau Lles, a gallant gyflwyno hyfforddiant fesul cam i'r darparwyr. Cynhaliwyd gweithdy Recriwtio ar Sail Gwerthoedd oedd yn para dau ddiwrnod ddiwedd Ionawr 2020, a'i gyflwyno i 15 o gynrychiolwyr o 11 o sefydliadau darparu. Roedd y gweithdy'n cynnwys amser i'r cyfranogwyr gael archwilio eu gwerthoedd personol eu hunain a rhai eu sefydliad, sut y gellir newid y prosesau presennol a sut y gellir cynnwys pobl sydd â phrofiad o ofal yn y broses.

Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda sylwadau'n cynnwys:

- Ysbrydoliaeth i newid!
  Rydw i'n ysu i gael gwerthuso a gwella ein proses recriwtio.
- Roeddwn i wrth fy modd gyda'r cwrs, ond yr hyn y gwnes i ei fwynhau orau oedd meithrin cyswllt â darparwyr eraill a rhannu syniadau
- Rydw i wedi dysgu bod angen i mi ymgorffori gwerthoedd fy sefydliad ym mhopeth a wnawn
- Mae angen gwneud y broses recriwtio'n hwyl – cynnwys y trigolion.



- Rydw i wedi dysgu y dylai recriwtio ymwneud â mwy na dim ond yr hyn sy'n 'ofynnol'.
  Pwy ydych chi a beth allwch chi ei gynnig?

Mae Cymunedau am Waith Sir y Fflint mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint wedi llwyddo i ddarparu dwy **raglen hyfforddiant "Llwybr i Ofal Cymdeithasol"** arloesol, i roi cyfle i bobl leol gael yr hyfforddiant a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio yn y sector Gofal Cymdeithasol.

Rhaglen wirfoddol yw Cymunedau am Waith, sy'n helpu'r oedolion hynny sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur i ddod o hyd i waith. Mae'r rhaglen yn targedu oedolion sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith yn hirdymor a phobl 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg nac hyfforddiant ar draws Sir y Fflint. Mae'n ceisio gwella eu cyflogadwyedd yn ogystal â'u helpu i ddod o hyd i, neu wella eu cyfle i ddod o hyd i waith.

Roedd y cyrsiau uwch Llwybrau i Ofal Cymdeithasol hyn, a gynhaliwyd dros bum niwrnod, yn cynnig cyfleoedd i gyfranogwyr dderbyn hyfforddiant gorfodol gofynnol i weithio yn y sector Gofal Cymdeithasol. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys: diogelu, rheoli haint, diogelwch bwyd ac iechyd a diogelwch, sydd oll yn cyrraedd y safon a gymeradwywyd gan Sir y Fflint ar gyfer gweithio mewn sefydliadau gofal ar draws y sir.




Ynghyd â'n hymdrechion lleol ni, mae **ymgyrch Gofalwn Cymru genedlaethol** yn canolbwyntio ar godi proffil cadarnhaol a hyrwyddo'r cyfleoedd am yrfa yn y maes gofal cymdeithasol a'r sectorau blynyddoedd cynnar a gofal plant ymysg y cyhoedd.

Lansiwyd yr ymgyrch ar 5 Mawrth 2019 ac un o'r elfennau allweddol yw gwefan Gofalwn Cymru. Mae'r adnodd ar-lein hwn yn cynnig cyfle i'r cyhoedd ddysgu am yr amrywiaeth o swyddi sydd ar gael yn gweithio gyda phlant ac oedolion.




Mae hefyd yn cynnwys rhestr sy'n tyfu o ddarpar gyflogwyr i helpu pobl i ystyried y dewis cywir iddynt hwy. Bydd y wefan hon yn tyfu ac yn datblygu dros amser, a dyma ganolbwynt yr ymgyrch.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn cefnogi'r ymdrech yn lleol, ac yn ystod yr wythnos Gofalwn ym mis Medi, llwyddom i siarad am werthoedd gyda'r unigolion a fynychodd ein sesiynau recriwtio galw heibio a'n diwrnod gwybodaeth a gynhaliwyd ledled y sir drwy'r wythnos. Bu i ni siarad â nifer o bobl a oedd yn dangos yn amlwg y math o werthoedd rydym yn chwilio amdanynt, ac mae rhai wedi mynd ymlaen i gysylltu â'n cyswllt recriwtio yn y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd yn gyfle gwych i fod allan yn siarad yn uniongyrchol â'r bobl oedd â diddordeb mewn gofal cymdeithasol, a rhannu agweddau cadarnhaol y swyddi.

Bu i ni hefyd weithio â'r tîm Gofalwn Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddarparu gweithdy oedd yn canolbwyntio

Care @ Flintshire
Gofal @ Sir y Fflint

ar werthoedd yn y digwyddiad Cynghori'r Cynghorwyr yn Venue Cymru ar 12 Chwefror 2020. Drwy'r gweithdy hwn bu i ni archwilio gwerthoedd fel bod yr unigolion hynny sydd â rôl mewn cyfeirio darpar ymgeiswyr at ddarparwyr gofal cymdeithasol yn deall y gwerthoedd y mae eu hangen ar gyfer y swyddi, a sut y gallant eu hadnabod mewn eraill.

Rydym yn parhau i ddatblygu **Gofal yn Sir y Fflint** ein canolbwynt ar-lein, sy'n ceisio codi proffil gweithio mewn gofal, dathlu'r gwaith da sy'n cael ei wneud a hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael. Rydym hefyd wedi lansio tudalen Facebook eleni, sy'n ffordd i ni rannu newyddion o bob rhan o'r sector.

Mae'r wefan yn cynnal nifer o gyfweliadau 'diwrnod ym mywyd' gydag unigolion sy'n gweithio mewn lleoliad gofal, o ofal cartref i wasanaethau adsefydlu cyffuriau ac alcohol. Rydym wastad yn chwilio am bobl yn y gweithlu all rannu eu stori a'u cipolwg ar y gwahaniaeth cadarnhaol y mae gweithio yn y maes gofal cymdeithasol yn ei wneud i bobl Sir y Fflint.

Mae yna gryn dipyn o gyfle i ddatblygu'r wefan ymhellach, ac rydym yn parhau i weithio'n agos gyda darparwyr a phartneriaid i gasglu adborth, darparu'r wybodaeth fuddiol ddiweddaraf ac ychwanegu llawer mwy o adnoddau i sicrhau bod y wefan yn parhau i fod yn adnodd buddiol i unigolion yn y sector.

Care at Flintshire - Gofal yn Sir y Fflint



# Sut rydym yn cyflawni'r hyn rydym yn ei wneud

## Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Lle bo'n berthnasol, mae Cyngor Sir y Fflint wedi parhau i gynyddu ardrethi i adlewyrchu **effaith chwyddiant blynyddol a newidiadau polisi.** Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal y sector gofal a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol a'r cyngor. Yn ogystal â chodiadau ariannol, mae'r timau contractau, comisiynu a gweithlu yn parhau i gynnig amrywiaeth o gymorth, hyfforddiant a chyfleoedd datblygu ymarfer yn y sector. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys recriwtio ar sail gwerthoedd, y rhaglen cynnydd i ddarparwyr a'r talebau hyfforddiant.

Rydym ym parhau i edrych ar ddulliau eraill o ddarparu gofal ar gyfer lleoliadau cost uchel/niferoedd isel traddodiadol, gan ganolbwyntio ar wasanaethau lleol sy'n darparu canlyniadau o safon a gwerth am arian. Drwy weithio'n agos â darparwyr lleol, ein nod yw sicrhau lleoliadau lleol ar gyfer y boblogaeth leol. Rydym wedi datblygu perthnasoedd cadarnhaol â'r farchnad, sy'n rhoi mwy o gyfle i ni sicrhau lleoliadau lleol lle mae eu hangen.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i fesur a gwneud y mwyaf o **Werth Cymdeithasol** drwy ei drefniadaeth, ei wasanaeth a'i wariant. Mae gwerth cymdeithasol yn ymwneud â deall effaith gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein gweithgareddau a sicrhau canlyniadau ychwanegol drwy ein gwaith, sydd o fudd i bobl, cymunedau a busnesau Sir y Fflint.

Bu i'r cyngor ddrafftio a chymeradwyo Polisi Caffael Gwerth Cymdeithasol ym mis Mawrth 2020, sy'n rhoi pwyslais cynyddol ar ddarparu manteision lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy ei weithgareddau caffael a chomisiynu. Bydd y Polisi Caffael Gwerth Cymdeithasol yn creu fframwaith alluogi i gryfhau'r dull o gynhyrchu gwerth cymdeithasol drwy'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu prynu.

Ym mis Tachwedd 2019, penododd y Cyngor Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol i hyrwyddo'r gwaith hwn a datblygu'r agenda hon. Ers cychwyn yn y swydd, mae'r Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol wedi, ac yn parhau i gefnogi nifer o weithgareddau caffael a chomisiynu. Mae datblygu Hwb Cyfle yn dangos enghraifft o Werth Cymdeithasol.

Roedd y gwerth cymdeithasol ychwanegol a gynhyrchwyd drwy'r prosiect yn cynnwys:

- 610 o fyfyrwyr ysgol neu goleg yn ymweld â'r safle adeiladu fel rhan o'u hastudiaethau;
- 6 o swyddi'n cael eu creu;
- 15 o leoliadau profiad gwaith yn cael eu cefnogi;
- 6 o gyfleoedd am brentisiaeth yn cael eu creu; a
- 8 o gyfweliadau cyflogaeth yn cael eu darparu ar gyfer ymgeiswyr dan anfantais.

# Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

## Pwy ydym ni

Mae Aelodau Etholedig yn cynrychioli trigolion Sir y Fflint ac yn chwarae rhan bwysig o ran llywodraethu'r Cyngor. Maent yn cytuno ar flaenoriaethau'r Cyngor ac yn cymeradwyo polisïau er mwyn gwella'n barhaus. Mae gan Gyngor Sir y Fflint 70 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli buddiannau eu ward ac sy'n rhan o gyfarfodydd llawn y Cyngor i oruchwylio perfformiad holl agweddau'r Cyngor. Mae un Aelod yn cael ei ethol gan gymheiriaid i gynrychioli pob maes portffolio. Mae'r rhain yn cael eu galw'n Aelodau Cabinet, ac ar y cyd â'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, y Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion, maent yn ffurfio Cabinet y Cyngor.

## Sut rydym ni'n gwneud penderfyniadau

Mae pob Aelod Cabinet yn cael ei gefnogi gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw hwnnw. Oherwydd y berthynas waith agos gyda'r Portffolio Addysg ac Ieuenctid, mae'r Cyngor hefyd yn cynnal cyfarfodydd Cydbwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Addysg ac Ieuenctid, er mwyn trafod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n berthnasol i'r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd ynghlwm â rhaglen waith y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy Fwrdd Rhaglen y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r Aelod Cabinet hefyd yn mynd i gyfarfodydd Tîm Rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol bob mis.

Mae swyddogion y Cyngor yn cael eu harwain gan y Prif Swyddog Gweithredol sy'n cael cefnogaeth Prif Swyddogion sy'n gyfrifol am bob un o'r meysydd portffolio. Mae gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl statudol "Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol". Nodir trefniadau strwythurol y Cyngor ar gyfer aelodau a swyddogion yn glir. Mae'r cyfansoddiad yn manylu ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn i sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae gan y Cyngor hefyd ei broses lywodraethu fewnol ei hun drwy system o archwilio mewnol. Mae canlyniadau archwiliadau'n cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a gellir galw swyddogion i roi tystiolaeth i'r pwyllgor pe bai pryderon yn codi ynghylch eu meysydd gwasanaeth.

## Gwaith partneriaeth

Fe welwch chi drwy gydol yr adroddiad ein bod yn gweithio gydag amrywiaeth ehangach o bartneriaid ar draws Iechyd a'r Trydydd Sector ac awdurdodau lleol Gogledd Cymru.

Wrth wraidd ein diwylliant o gydweithio mae **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint.** Sefydlwyd y corff statudol hwn ym mis Ebrill 2016, ac mae'n cynnwys uwch arweinwyr o sefydliadau'r sector cyhoeddus ac annibynnol. Ei nod yw sicrhau bod partneriaid statudol a thrydydd sector yn cydweithio i reoli blaenoriaethau cyffredin drwy gydweithio, ac mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u nodi yng Nghynllun Lles Sir y Fflint 2017-2023.

Sefydlwyd **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** yn 2016 hefyd ac mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolaeth o gyrff statudol, partneriaid trydydd sector, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn gweithio i integreiddio a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yng Ngogledd Cymru, ac mae wedi bod yn llwyddiannus â'i gynnig am gyllid ychwanegol i'r rhanbarth ar gyfer y Rhaglenni Trawsnewid.

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gydweithio'n agos, gyda chyfarfodydd strategol rhwng y prif weithredwyr a'r arweinwyr yn cael eu cynnal bob dwy flynedd. Mae nifer o gyfarfodydd gweithredol yn cael eu cynnal ar y cyd drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyfarfod craffu arbennig bob chwe mis lle mae gwahoddiad i gydweithwyr yn y maes iechyd fynychu i ateb cwestiynau gan aelodau etholedig.

Mae enghraifft o'r gwaith partneriaeth hwn wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar gyda datblygiad ysbytai dros dro newydd i helpu ymdopi â'r achosion o COVID-19 yng Ngogledd Cymru. Roedd **Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy** yn un o'r rhai hynny a leihaodd nifer y cleifion ym mhrif ysbytai BIPBC, er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar ofal y cleifion â'r mwyaf o angen. Ni fydd cleifion sy'n cael gofal yn yr ysbytai dros dro angen eu mewndiwbio, felly ni fydd angen peiriannau anadlu ynddynt.

Mae Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy wedi'i dewis fel y safle gorau sydd ar gael ar gyfer Ysbyty Brys i wasanaethu ardal ddwyreiniol Gogledd Cymru. Fe'i dewiswyd oherwydd ei lleoliad a'i bod yn hawdd ei chyrraedd ar y ffyrdd, oherwydd ei maint a'i chynllun mewnol ac oherwydd y cyfleustodau a'r cyfleusterau sydd ar gael, fel cyfleusterau toiled ac ymolchi hygyrch.

Mae gan y Ganolfan Hamdden hefyd y fantais o allu cynnwys mwy o welyau y tu hwnt i'r targed cychwynnol o 250 os bydd angen.

Dewiswyd y Ganolfan Hamdden ddydd Iau 2 Ebrill gan dîm o bartneriaid oedd yn cynnwys tîm proffesiynol amlddisgyblaethol o'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor fel landlord, y Gwasanaeth Ambiwlans, y Gwasanaeth Tân a'r Fyddin, ac mewn ymgynghoriad ag Aura Cymru fel tenant.

Caiff yr ysbyty ei rheoli gan y Bwrdd Iechyd, gyda'r ganolfan hamdden yn dychwelyd i'w defnydd llawn pan fydd yr argyfwng presennol drosodd.

Mae ein perthynas gyda'r sector gwirfoddol yn parhau i gael ei chryfhau drwy ein rhan yng Nghompact y Sector Gwirfoddol. Mae'r bartneriaeth deirffordd hon rhwng y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r sector gwirfoddol yn creu cyd-ddealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall, ac yn ein galluogi i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth. Mae'r aelodau'n cynnwys y Prif Swyddog a Chadeirydd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, aelodau eraill y sector gwirfoddol, y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor ac un o uwch reolwyr y Bwrdd Iechyd.



# Cael gafael ar fwy o wybodaeth a dogfennau pwysig

## Dolenni i Ddeddfwriaeth a Gwybodaeth am Ofal Cymdeithasol:

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru

## Dolenni i Ddogfennau Strategol Allweddol Cyngor Sir y Fflint:

Cynllun y Cyngor 2018-23

Ein Sir y Fflint, Ein Dyfodol 2019-20

Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2018-2023

Sir y Fflint Digidol 2017-2022

Strategaeth Anabledd Dysgu Rhanbarthol

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

# Rhestr Termau

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) - term a ddefnyddir i ddisgrifio amrediad eang o brofiadau ingol neu drawmatig y gallai plant fod wedi'u dioddef wrth dyfu i fyny. Mae ACEs yn amrywio o brofiadau sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol i rai sy'n effeithio'r amgylchedd y mae plentyn yn tyfu i fyny ynddo.

Eiriolaeth - y weithred o siarad ar ran neu o blaid person arall.

Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid - fframwaith cyfreithiol sy'n diogelu pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal neu ysbytai sy'n agored i niwed oherwydd anhwylder meddyliol ac nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu hanghenion llety a gofal eu hunain.

Taliadau Uniongyrchol - mae'n rhoi arian yn uniongyrchol i'r defnyddwyr i dalu am eu gofal eu hunain, yn hytrach na'r ffordd draddodiadol o gael gofal gan Awdurdod Llywodraeth Leol.

Gofal Ychwanegol - tai wedi'u dylunio gan roi ystyriaeth i anghenion defnyddwyr gwasanaeth, sy'n darparu amrywiol lefelau o gymorth sydd ar gael ar y safle ac yn hybu byw'n annibynnol.

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) - y sefydliad ymbarél a chymorth ar gyfer dros 1200 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn y Sir.

Cronfa Gofal Integredig (ICF) - cronfa Llywodraeth Cymru sy'n "ceisio ysgogi a galluogi gwaith integredig rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Tai a'r trydydd sector a'r sector annibynnol".

Plant sy'n Derbyn Gofal - mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os yw llys wedi caniatáu gorchymyn gofal i roi plentyn mewn gofal, neu os yw adran gwasanaethau plant y cyngor wedi gofalu am y plentyn am dros 24 awr.

Canolbwyntio ar ganlyniadau - y diffiniad o ganlyniadau yw effaith neu gasgliad terfynol gwasanaethau ar fywyd person. Mae gwasanaethau a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau felly'n ceisio cyrraedd y dyheadau, y nodau a'r blaenoriaethau a nodwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth (a gofalwyr), mewn gwrthgyferbyniad â gwasanaethau y mae eu cynnwys ac/neu eu darpariaeth yn safonedig neu'n cael eu pennu gan y rhai sy'n eu darparu'n unig.

Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn - dull sy'n gwyro oddi wrth gael gweithwyr proffesiynol i benderfynu beth sydd orau i glaf neu ddefnyddiwr gwasanaeth, ac yn rhoi pwyslais ar yr unigolyn, fel arbenigwr ar eu profiad eu hunain. Mae'r unigolyn, a'r teulu lle bo hynny'n briodol, yn dod yn bartner cyfartal wrth gynllunio eu gofal a'u cymorth, gan sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion, eu nodau a'u canlyniadau.

Seibiant - cyfnod byr o ofal dros dro er mwyn rhoi seibiant neu orffwys i ofalwr sydd angen egwyl o'u rôl

Unigolyn Cyfrifol - rhywun sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth mewn sefydliad neu awdurdod lleol.

Diogelu - term a ddefnyddir i ddynodi mesurau i warchod iechyd, lles a hawliau dynol unigolion, sy'n caniatáu i bobl fyw heb gael eu cam-drin, eu niweidio na'u hesgeuluso.

Menter Gymdeithasol - sefydliad sy'n defnyddio strategaethau masnachol i wneud y gwelliannau mwyaf posib o ran lles dynol ac amgylcheddol. Gall hyn gynnwys cael yr effaith gymdeithasol fwyaf bosib ynghyd â gwneud elw ar gyfer budd-ddeiliaid allanol.

Gwasanaethau Statudol - gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol yn ôl yr arfer. Enghreifftiau o'r math yma o wasanaethau yw gofal cartref a gofal seibiant.

Y Trydydd Sector - y rhan o economi neu gymdeithas sy'n cynnwys sefydliadau neu gymdeithasau anllywodraethol a dielw, gan gynnwys elusennau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cydweithredfaoedd ac ati.

Lles - y cyflwr o fod yn gyfforddus, yn iach neu'n hapus.

ATODIAD 1:

# Data cyd-destunol a mesuryddion perfformiad cenedlaethol

## Gwasanaethau Oedolion

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, bu i ni ddarparu gwasanaethau i 4324 o oedolion, a chomisiynodd 580 o bobl eu gwasanaethau eu hunain drwy Daliadau Uniongyrchol; mae hyn yn cyfrif am 40% o'r gwasanaethau cartref.

Ni wnaeth 75% o'r oedolion a gafodd gymorth gan y gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn. Defnyddiodd 451 o unigolion bresgripsiynau cymdeithasol drwy'r Tîm Un Pwynt Mynediad.

Cwblhaodd 53% o'r oedolion gyfnod o ailalluogi ac nid oedd angen unrhyw becyn gofal arnynt chwe mis yn ddiweddarach; roedd pecyn gofal a chymorth 12% ohonynt wedi'i leihau chwe mis yn ddiweddarach.

Ar 31 Mawrth, roeddem yn cynorthwyo 421 o bobl dros 65 oed mewn cartrefi gofal.

Cafodd 1,300 o oedolion sy'n ofalwyr eu clustnodi a'u hatgyfeirio at ein darparwyr gwasanaethau gofalwyr.

## Gwasanaethau Plant

O fewn y Gwasanaethau Plant, mae cynnydd pellach wedi bod yn nifer y plant a atgyfeiriwyd atom ni, sydd wedi bod yn codi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ystod 2019/2020, cafwyd 5299 o atgyfeiriadau.

Canran yr asesiadau i blant a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol (42 diwrnod gwaith) oedd 94.4%; mae'r mesurydd hwn yn cynnwys sgyrsiau "Beth sy'n Bwysig?" a gynhaliwyd yn ein drws ffrynt.

Roedd 214 o blant ar Gofrestr Amddiffyn Plant Sir y Fflint ar 31 Mawrth, a'r amser cyfartalog yr oedd plant yn aros ar y Gofrestr oedd 304 diwrnod. Roedd 5.3% o'r plant ar y Gofrestr wedi'u hailgofrestru. Cafodd 13 o blant a theuluoedd eu hailgofrestru o fewn 12 mis i gael eu dad-gofrestru. Cynhaliwyd 86% o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a 99.3% o gynadleddau adolygu o fewn yr amserlenni.

Rydym wedi helpu 70% o blant i aros gyda'u teuluoedd, dychwelodd 9% o Blant sy'n Derbyn Gofal gartref o ofal yn ystod y flwyddyn a chaniatawyd 5 Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig.

Nifer yr atgyfeiriadau i Gyfarfodydd Grŵp Teulu oedd 348.

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiodd 1341 o deuluoedd y Ganolfan Cymorth Cynnar a defnyddiodd 3385 o deuluoedd y cynnig gofal plant. Cyfanswm y darparwyr gofal plant oedd 535.

Cafodd 56 o ofalwyr ifanc eu clustnodi a'u cyfeirio at ein darparwyr gwasanaethau gofalwyr ifanc.

## SAG1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

Ni wnaeth 75% o’r oedolion a gafodd gymorth gan y gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth gysylltu â’r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn.

Cwblhawyd 75% o’r asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol.

## SAG2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a’u lles emosiynol

Cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o’r boblogaeth dros 75 oed oedd 3.29.

Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi a) gyda phecyn gofal a chymorth wedi’i leihau 6 mis yn ddiweddarach oedd 12%, a b) heb becyn gofal chwe mis yn ddiweddarach oedd 53%.

Oedran cyfartalog yr oedolion oedd yn mynd i gartrefi gofal preswyl oedd 86.

Cafodd 73% o blant sy’n derbyn gofal eu gweld gan ddeintydd cofrestredig o fewn tri mis i gychwyn derbyn gofal.

Cofrestrwyd 82% o blant sy’n derbyn gofal â Meddyg Teulu.

## SAG3: Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Cafodd 93% o ymholiadau amddiffyn oedolion eu cwblhau o fewn yr amserlenni statudol.

Roedd 5.30% o’r plant ar gofrestrau amddiffyn plant yr awdurdod lleol wedi’u hailgofrestru.

Roedd plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn am gyfartaledd o 304 diwrnod.

## SAG4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Llwyddodd 72.73% o blant sy’n derbyn gofal i gyflawni’r dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 2.

Cafodd 3.6% o blant sy’n derbyn gofal brofiad o symud ysgol un neu fwy o weithiau yn ystod cyfnodau o dderbyn gofal, am resymau heblaw trefniadau pontio.

## SAG5: Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd iach a diogel yn y cartref, gyda’r teulu ac yn bersonol

Cafodd 70% o’r plant eu cefnogi i barhau i fyw gyda’u teulu.

Cafodd 9% o’r plant sy’n derbyn gofal ddychwelyd gartref o ofal yn ystod y flwyddyn.

Roedd 7% o’r plant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn.

## SAG6: Gweithio gyda phobl a’u cefnogi i sicrhau gwell lles economaidd, gwell bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy’n diwallu eu hanghenion

Roedd 60% o’r bobl ifanc oedd yn gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu waith 12 mis ar ôl gadael gofal, ac roedd 45% o’r bobl ifanc oedd yn gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu waith 24 mis ar ôl gadael gofal.

Roedd 3% o’r bobl ifanc oedd yn gadael gofal wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn.

